



The Planning Inspectorate  
Yr Arolygiaeth Gynllunio

# **Archwiliadau Cynlluniau Datblygu Lleol**

Canllaw Gweithdrefnol

**Awst 2015**

# Contents

<b>1. Cyflwyniad a throsolwg .....</b>	<b>3</b>
Adnoddau a graddfeydd amser.....	4
<b>2. Cyflwyniad .....</b>	<b>9</b>
Newidiadau i'r CDLI adneuo cynnar.....	9
Newidiadau i'r CDLI wedi'i Adneuo/diwygiadau i'r cynllun cyn cyflwyno sy'n 'ffocysedig' neu'n 'fach'.....	10
<b>3. Paratoi ac archwiliad cychwynnol .....</b>	<b>12</b>
Amlygu materion a phynciau .....	12
Diffygion sylfaenol / cronrus .....	13
Dyrannu cyfranogwyr i wrandawiaid .....	14
Deunydd ysgrifenedig ychwanegol gan gyfranogwyr.....	14
<b>4. Y Cyfarfod Cyn Gwrandawriad.....</b>	<b>16</b>
<b>5. Paratoi ar gyfer y sesiynau gwrandawriad .....</b>	<b>18</b>
Datganiadau ysgrifenedig .....	18
Agendâu ar gyfer sesiynau gwrandawriad .....	18
<b>6. Sesiynau gwrandawriad.....</b>	<b>20</b>
Agor y sesiynau gwrandawriad .....	21
Fformatau ar gyfer clywed tystiolaeth .....	21
Clywed y cyfranogwyr.....	23
Nifer fawr o gyfranogwyr.....	23
Newidiadau Materion sy'n codi/camau gweithredu y cytunwyd arnynt .....	24
Dod â'r sesiynau gwrandawriad a drefnwyd i ben .....	25
Deunydd pellach a sesiynau gwrandawriad ychwanegol .....	26
<b>7. Ysgrifennu adroddiad .....</b>	<b>27</b>
Egwyddorion allweddol ar gyfer adrodd.....	27
Strwythur yr adroddiad.....	27
Newidiadau a argymhellir gan yr Arolygydd.....	28
CDLlau nad ydynt yn gadarn .....	29
<b>8. Darparu adroddiad i'r ACLI .....</b>	<b>30</b>
Yr adroddiad gwirio ffeithiau.....	30
Yr adroddiad terfynol .....	30
<b>9. Gweithdrefnau Eithriadol.....</b>	<b>32</b>
<b>Cyfarfodydd Archwiliol.....</b>	<b>32</b>
Dull a diben y cyfarfod archwiliadol.....	32
Cyfranogwyr, Rhybudd ac Amseriad .....	32
Rôl yr Arolygydd .....	33
Canlyniadau posibl y cyfarfod.....	34
<b>Gohirio.....</b>	<b>34</b>
<b>Tynnu'n ôl.....</b>	<b>36</b>
<b>Seminarau Technegol .....</b>	<b>36</b>

**Atodiad – Gofynion Gweithdrefnol a’r profion cadernid: cwestiynau allweddol a thystiolaeth.....38**

Mae Adran 64(5) y Ddeddf Cynllunio a Phryniant Gorfodol yn nodi dau ddiben archwiliad annibynnol. Y cyntaf yw sicrhau y cafodd y CDLI neu ddiwygiadau i’r cynllun eu paratoi yn unol â gofynion gweithdrefnol; yr ail yw penderfynu a yw’r cynllun yn ‘gadarn’. ..... 38

Gofynion gweithdrefnol ..... 38

Profion cadernid ..... 38

Prawf 1: A yw’r cynllun yn gweddu? (h.y. a yw’n glir bod y CDLI yn gyson â chynlluniau eraill?) ..... 38

Prawf 2: A yw’r cynllun yn briodol? (h.y. a yw’r cynllun yn briodol ar gyfer yr ardal yng ngoleuni’r dystiolaeth? ..... 39

Prawf 3 – A fydd y cynllun yn cyflawni (h.y. a yw’n debygol o fod yn effeithiol?) ..... 40

# 1. Cyflwyniad a throsolwg

- 1.1. Mae'r ddogfen hon yn ymwneud ag agweddau gweithdrefnol ymdrin ag archwilio cynlluniau datblygu lleol (CDLIau). Mae'r canllaw hwn wedi'i fwriadu ar gyfer pawb sy'n ymwneud â'r broses o archwilio CDLI, gan gynnwys Arolygwyr.
- 1.2. Darperir y sail statudol ar gyfer archwiliadau'r CDLI yn adran 64 [Deddf Cynllunio a Phryniant Gorfodol 2004](#) (Deddf 2004) ac yn [Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref \(Cynllun Datblygu Lleol\) \(Cymru\) 2005 \(fel y'i diwygir\)](#). Mae [Polisi Cynllunio Cymru Llywodraeth Cymru \(Pennod 2, Awst 2015\)](#) a [Llawlyfr Cynllun Datblygu Lleol \(Awst 2015\)](#) yn adnabod egwyddorion cyffredinol ar gyfer archwilio'r CDLIau.
- 1.3. Nid oes unrhyw ddeddfwriaeth neu bolisi Llywodraeth Cymru yn ymdrin ag agweddau gweithdrefnol manwl yr archwiliad. Mae hyn yn rhoi rhywfaint o hyblygrwydd o ran gweinyddu'r broses archwilio er mwyn diwallu anghenion pawb sy'n gysylltiedig. Fodd bynnag, er mwyn cynorthwyo cyfranogwyr a sicrhau cysondeb o ran ymagwedd, fel arfer bydd archwiliadau yn cael eu cynnal o fewn y paramedrau a restrir yn yr arweiniad hwn. Bydd Arolygwyr yn ystyried ysbryd y rheolau sy'n llywodraethu gweithdrefnau eraill er mwyn sicrhau bod pawb yn cael eu trin yn deg mewn materion megis dosbarthu papurau'n amserol a rhoi rhybudd rhesymol i gyfranogwyr o gyfarfodydd cyn gwrandawriad<sup>1</sup>.
- 1.4. Rhoddir canllawiau ar wahân i Awdurdodau Cynllunio Lleol ar broses cyflwyno'r CDLI yn 'Paratoi ar gyfer cyflwyno: canllawiau i Awdurdodau Cynllunio Lleol'.
- 1.5. Caiff archwiliadau CDLI ffocysu ar gynllun hollol newydd neu un sy'n disodli'r un blaenorol; neu mae'n bosibl y byddant yn ymwneud â diwygiadau arfaethedig i gynllun a fabwysiedir. Mae cyfeiriadau at 'CDLI' neu 'Cynllun' yn yr arweiniad hwn yn cyfeirio naill ai at:
  - Y CDLI fel y'i cyflwynir ar gyfer ei archwilio (ar gyfer cynlluniau newydd neu rai sy'n disodli'r un blaenorol), neu
  - Y CDLI fel y'i cynigir i'w diwygio (ar gyfer diwygiadau i gynllun)
- 1.6. Rôl yr Arolygydd a benodir yw cynnal asesiad annibynnol o gadernid cyffredinol y cynllun, a'i fod yn bodloni'r gofynion statudol ar gyfer ei baratoi. Nid rôl yr Arolygydd yw gwella'r CDLI ond yn hytrach gwneud argymhellion i sicrhau ei fod yn gadarn. Mae hyn yn golygu ymdrin â'r prif faterion sydd wrth wraidd y CDLI a pheidio ag ymwneud â manylion y cynllun oni bai bod hynny'n angenrheidiol i ddod i gasgliad ynglŷn â

---

<sup>1</sup> Mae [Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref \(Cynllun Datblygu Lleol\) \(Cymru\) 2005 \(fel y'i diwygir\)](#) yn rhagnodi y dylid rhoi o leiaf 6 wythnos o rybudd cyn bod gwrandawriadau'n cychwyn (Rheoliad 23).

chadernid y Cynllun. Ar yr amod nad ydynt yn methu'r profion cadernid, ni fydd Arolygwyr yn ymdrin â mân gamgymeriadau drafftio neu argraffyddol.

- 1.7. Seilir yr archwiliad ar ddiffiniad yr Arolygydd o faterion a phroblemau, ac ni chaiff ei lywio gan y sylwadau. Bydd sesiynau gwrandawriad yn chwilysol, gyda'r Arolygydd yn holi'n fanwl ynghylch materion perthnasol gyda chymorth cyfranogwyr. Mae'n rhaid i'r rhai hynny sydd wedi ceisio newidiadau i'r cynllun a gyflwynir neu ddiwygiadau i gynlluniau ac wedi mynegi dymuniad i gael eu clywed, gael gwahoddiad i fynychu. Ceir gwahodd partïon eraill i fynychu hefyd os yw'r Arolygydd o'r farn y byddent yn ei gynorthwyo i ddeall y materion dan sylw. O ran Arolygwyr, bydd ymgysylltu'n gynnar yn golygu, erbyn yr adeg pan fydd y sesiynau gwrandawriad yn dechrau, y byddant yn gwbl gyfarwydd â'r cynllun, sut y'i paratowyd a'r materion y mae'n eu codi. Rhoddir yr un pwys i sylwadau a wneir yn ysgrifenedig ac mewn gwrandawriadau.
- 1.8. Bydd yr Arolygydd yn rheoli'r broses archwilio o'r dechrau i'r diwedd. Bydd yn rhagweithiol o'r adeg y'i penodir, er mwyn gweld a oes problemau gyda'r cynllun y gellir eu hamlygu ar gam cynnar. Gallai hyn olygu bod angen cynnal cyfarfod archwiliadol (gweler Pennod 9 i gael rhagor o fanylion).
- 1.9. Bydd Arolygwyr yn paratoi eu Hadroddiadau Archwiliad ar y gysail y dylent geisio bod yn gryno, gan osgoi cyfeirio'n uniongyrchol at 'sylwadau' cyn belled ag y bo'n bosibl. Byddant yn rhoi casgliadau ac argymhellion eglur ynglŷn â chynnwys y CDLI, gan gynnwys unrhyw newidiadau a argymhellir yn dilyn yr ymgynghoriad adnewo, o ran y profion cadernid. Bydd adroddiadau Arolygwyr yn destun adolygu gan gymheiriaid er mwyn cyflawni'r lefel uchaf bosibl o gysondeb.
- 1.10. Mae Adran 65 Deddf 2004 yn datgan pwerau ymyrraeth trwy gyfarwyddyd Llywodraeth Cymru, lle yr ystyrir bod argymhellion adroddiad rhwymol yn codi materion o bwysigrwydd cenedlaethol neu'n ymestyn y tu hwnt i ardal yr awdurdod sy'n llunio'r cynllun. Mae paragraff 2.6.4 Polisi Cynllunio Cymru yn datgan yn eglur y bydd Llywodraeth Cymru'n defnyddio pwerau o'r fath mewn ystod gyfyngedig o amgylchiadau yn unig ac fel dewis olaf. Bydd yr Arolygiaeth Gynllunio'n rhoi copi o'r adroddiad drafft ar yr archwiliad o'r CDLI i Lywodraeth Cymru pan fydd yn cael ei anfon i'r ACLI i wirio ffeithiau.

### ***Adnoddau a graddfeydd amser***

- 1.11. Mae'r Arolygiaeth yn ymrwymedig i ddarparu Adroddiad yr Arolygydd o fewn 12 mis o gyflwyno CDLI i'w archwilio (ac yn sylweddol llai ar gyfer newidiadau bach i gynllun cyfredol). Er mwyn cyflawni hyn, mae'n hollbwysig bod Awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLIau) yn gallu symud yn gyflym i'r broses archwilio ar ôl cyflwyno cynllun, gan sicrhau yn arbennig bod yn cynllun yn gadarn, bod yr holl ddogfennau cyflwyno sy'n ofynnol yn dod gydag ef (gan gynnwys sylwadau) ac y caiff ei gefnogi gan sylfaen dystiolaeth gyflawn.

- 1.12. Yn dibynnu ar gymhlethdod cynllun, gallai'r Arolygydd arweiniol gael ei gynorthwyo gan Arolygwyr eraill, ymgynghorwyr arbenigol neu swyddogion cynllunio. Dyrennir amser yn unol â chymhlethdod y CDLI.
- 1.13. Bydd hyd cyffredinol yr archwiliad yn dibynnu ar gymhlethdod a chwmpas y materion sy'n cael eu harchwilio. Mae profiad yn dangos y gall archwiliad CDLI llawn bara am hyd at 12 mis, ond mae amserlen sylweddol fyrrach yn debygol pan fydd yr archwiliad yn perthyn i ddiwygiadau i gynllun a fabwysiedir. O dan y Rheoliadau 2005 a ddiwygiwyd, caiff Awdurdodau Cynllunio Lleol ddewis dilyn gweithdrefn 'ffurf fer' ar gyfer diwygiadau rhannol na fyddai'n effeithio ar strategaeth y cynllun (gweler paragraff 10.2.6 y Llawlyfr CDLI). Beth bynnag yw'r materion a godir, mewn sefyllfaoedd o'r fath, ni fydd angen Cyfarfod cyn y Gwrandawriad ac mae'n bosibl y bydd yr archwiliad yn gallu mynd yn ei flaen trwy sylwadau ysgrifenedig. Mae Tablau 1 i 3 yn amlygu tair amserlen archwilio ddamcaniaethol, rhwng 18 a 43 o wythnosau o hyd.

### Tabl 1: Amserlen archwilio – CDLI llawn

- CDLI sy'n disodli'r un blaenorol neu ddiwygiad llawn i CDLI
- Sesiynau gwrandawriad sy'n para hyd at 20 diwrnod

Wythnos	Camau allweddol
1+ ymlaen	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae'r ACLI yn cyflwyno'r CDLI a'r dogfennau ategol i Lywodraeth Cymru a'r Arolygiaeth Gynllunio.</li> <li>• Cyn belled ag y bo Swyddog Rhaglen wedi'i benodi a bod yr holl ddogfennau wedi'u cyflwyno, bydd yr Arolygiaeth yn symud ymlaen i benodi'r Arolygydd. Bydd yr Arolygiaeth yn cynnal ymarfer cwmpasu cychwynol o'r CDLI (gweithdrefn a chynnwys) a fydd yn cael ei drosglwyddo i'r Arolygydd a benodwyd.</li> </ul>
2+ ymlaen	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Bydd yr Arolygydd yn dechrau arfarniad cynnar o'r CDLI ac yn cysylltu â'r Swyddog Rhaglen. Bydd yr Arolygydd yn cadarnhau dyddiad y Cyfarfod Cyn Gwrandawriad a dyddiad dechrau dros dro ar gyfer y gwrandawriad trwy'r Swyddog Rhaglen. Bydd yr ACLI yn rhoi cyhoeddusrwydd i'r Cyfarfod Cyn Gwrandawriad, gan roi o leiaf 4 wythnos o rybudd.</li> <li>• Bydd yr Arolygydd yn chwilio am unrhyw ddiffygion sylfaenol neu gronnus yn y CDLI ac yn ysgrifennu at yr awdurdod yn y lle cyntaf os oes pryderon mawr. Os oes angen cynnal cyfarfod archwiliadol, bydd yr Arolygydd yn rhoi gwybod i'r ACLI trwy'r Swyddog Rhaglen (Sylwer: mae cyfarfod archwiliadol yn debygol o arwain at oedi yn amserlen yr archwiliad).</li> <li>• Bydd yr Arolygydd yn dechrau ystyried strwythur gwrandawriadau, dyrannu cyfranogwyr i sesiynau gwrandawriad a phenderfynu pa ddeunydd ychwanegol sydd ei angen gan gyfranogwyr.</li> <li>• Mae'n bosibl y gofynnir i'r ACLI ymateb i gwestiynau ar faterion penodol a amlygwyd gan yr Arolygydd. Fodd bynnag, ni ddylai papurau gael eu cyflwyno os nad yw'r Arolygydd wedi gofyn amdanynt.</li> </ul>

	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Bydd y Swyddog Rhaglen yn anfon llythyrau cychwynnol at y rhai a gyflwynodd sylwadau.</li> </ul>
7	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Bydd yr Arolygydd yn ceisio cwblhau'r rhaglen ar gyfer y sesiynau gwrandawriad a'r rhestr ddrafft o faterion a phynciau ar gyfer y gwrandawiadau cyn y Cyfarfod Cyn Gwrandawriad.</li> <li>• Bydd y Swyddog Rhaglen yn dosbarthu Nodiadau Cyfarwyddyd yr Arolygydd i'r cynrychiolwyr ac yn cadarnhau presenoldeb yn y gwrandawiadau.</li> <li>• Bydd yr ACLI yn rhoi cyhoeddusrwydd i ddyddiad dechrau'r sesiynau gwrandawriad o leiaf 6 wythnos o flaen llaw.</li> </ul>
8	<p><b>CYFARFOD CYN GWRANDAWRIAD</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ceisir cynnal y Cyfarfod Cyn Gwrandawriad 8 wythnos ar ôl cyflwyno'r cynllun (6 wythnos cyn i'r sesiynau gwrandawriad ddechrau).</li> <li>• Ni fydd teilyngdod y CDLI yn cael ei drafod yn y cyfarfod hwn, ond gallai'r Arolygydd wahodd sylwadau gan y cyfranogwyr ar y materion a phynciau drafft a amlygwyd ar gyfer yr archwiliad.</li> </ul>
9+ ymlaen	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Dylai'r Swyddog Rhaglen ddosbarthu nodiadau'r Cyfarfod Cyn Gwrandawriad, ynghyd â'r rhaglen ar gyfer y sesiynau gwrandawriad a rhestr derfynol y materion a'r pynciau ar gyfer y gwrandawiadau, cyn gynted ag sy'n ymarferol ar ôl y Cyfarfod Cyn Gwrandawriad.</li> <li>• Bydd yr ACLI a'r cyfranogwyr yn dechrau gweithio ar ddarparu unrhyw ddatganiadau ysgrifenedig y gofynnwyd amdanynt gan yr Arolygydd. Bydd yr Arolygydd yn rheoli proses yr hyn y ceir ei gyflwyno. Fel arfer, bydd angen i bob parti gyflwyno ymatebion i'r Arolygydd erbyn yr un dyddiad. Diben hyn fydd hysbysu'r Arolygydd ac nid creu gwrthddadleuon.</li> <li>• Gallai'r Arolygydd ddarparu ar gyfer cyflwyno datganiadau gwrthbrofi os yw o'r farn y byddent yn ddefnyddiol.</li> <li>• Bydd gan yr ACLI a chyfranogwyr eraill yn yr archwiliad oddeutu 4 wythnos i gynhyrchu eu datganiadau ar gyfer y sesiwn gwrandawriad.</li> </ul>
12	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Y dyddiad ar gyfer cyflwyno ymatebion a datganiadau gan yr ACLI a chyfranogwyr.</li> <li>• Bydd y Swyddog Rhaglen yn dosbarthu datganiadau ysgrifenedig gan yr ACLI a chyfranogwyr eraill ymhell cyn i'r gwrandawiadau ddechrau, fel bod pob parti yn gwbl ymwybodol o'r dystiolaeth/pwyntiau sy'n cael eu gwneud.</li> </ul>
13	Bydd y Swyddog Rhaglen yn dosbarthu agendâu manwl terfynol ar gyfer y trafodaethau ym mhob un o'r sesiynau gwrandawriad i'r cyfranogwyr perthnasol.
14+ ymlaen	<p><b>SESIYNAU GWRANDAWRIAD<sup>2</sup></b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae'r sesiynau gwrandawriad yn rhan bwysig o'r broses archwilio; dylai pob cyfranogwr fod yn bresennol ar y diwrnod perthnasol.</li> <li>• Mae'n debygol y caiff pwyntiau gweithredu eu cytuno ar ôl pob sesiwn. Mae'r CDLI yn cychwyn ar waith ar y 'Newidiadau Materion sy'n codi' mae'n bwriadu eu gwneud i'r cynllun, gan gynnwys</li> </ul>

<sup>2</sup> Mae'n debygol y bydd yr Arolygydd yn cynnwys egwyl yn yr amserlen rhwng blociau o wrandawiadau.

	<p>Gwerthusiad Cynaliadwyedd.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Bydd yr Arolygydd yn cyhoeddi'r dyddiad ar gyfer darparu'r adroddiad yn y sesiwn gwrandawriad olaf (gan ystyried yr amser sy'n ofynnol ar gyfer y broses sicrhau ansawdd fewnol).</li> </ul>
19 + ymlaen	<p><b>ADRODD</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Pan fydd y gwrandawriadau wedi dod i ben a'r Arolygydd yn adrodd, ni fydd unrhyw sylwadau/papurau ychwanegol yn angenrheidiol oni bai bod yr Arolygydd yn gofyn amdanynt yn benodol (bydd yr archwiliad yn aros yn agored trwy gydol y cyfnod adrodd).</li> <li>Ymgymerir ag ymgynghoriad ar unrhyw 'Newidiadau Materion sy'n codi' gan y CDLI ac anfonir yr ymatebion ymlaen at yr Arolygydd.</li> <li>Os bydd yr Arolygydd yn ystyried bod angen newidiadau ychwanegol i'r cynllun sydd angen ymgynghoriad/SA, bydd ef/hi yn gofyn i'r CDLI ymgymryd â'r gwaith perthnasol.</li> </ul>
38	Bydd yr adroddiad yn destun proses Sicrhau Ansawdd fewnol yn yr Arolygiaeth cyn iddo gael ei anfon. Bydd y broses hon yn cymryd oddeutu 2 wythnos.
40	<p><b>GWIRIO FFEITHIAU</b></p> <p>Bydd gan yr ACLI 2 wythnos i gynnal y gwiriad ffeithiau.</p>
42	Bydd yr Arolygydd yn ymateb i'r materion a'r sylwadau a godwyd gan yr ACLI yn sgil gwirio ffeithiau.
43	<p><b>ADRODDIAD TERFYNOL</b></p> <p>Bydd yr adroddiad terfynol yn cael ei anfon.</p>

## Tabl 2: Amserlen Archwilio – diwygio'r CDLI (gan gynnwys strategaeth y cynllun)

- Diwygio'r CDLI a fabwysiedir – proses ffurf hir (h.y. mae'n cynnwys y cam Strategaeth a Ffefrir)
- Codwyd materion strategol/arwyddocaol, ond mae'n gyfyngedig o ran cwmpas
- Sesiynau gwrandawriad yn para hyd at 10 diwrnod.

Wythnos	Camau allweddol
1 tan 13	Fel yn Nhabl 1. Bydd yr archwiliad yn canolbwyntio ar y diwygiadau arfaethedig i'r CDLI a fabwysiedir.
14 a 15	<p><b>SESIYNAU GWRANDAWRIAD</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Fel yn Nhabl 1.</li> </ul>
16 + ymlaen	<p><b>ADRODD</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Fel yn Nhabl 1.</li> </ul>
26	Bydd yr adroddiad yn destun proses Sicrwydd Ansawdd fewnol yn yr Arolygiaeth cyn ei anfon. Mae'r broses hon yn cymryd rhyw 2 wythnos.
28	<p><b>ANFON GWIRIAD FFEITHIAU</b></p> <p>Mae gan yr ACLI 2 wythnos i ymgymryd â'r gwiriad ffeithiau.</p>
30	Bydd yr Arolygydd yn ymateb i faterion y gwiriad ffeithiau a'r sylwadau a godwyd gan y ACLI
32	<p><b>ADRODDIAD TERFYNOL</b></p> <p>Caiff yr adroddiad terfynol eu anfon.</p>



**Tabl 3: Amserlen archwilio – diwygiad rhannol; ni effeithir ar strategaeth y CDLI**

- Diwygiad rhannol o'r CDLI – proses ffurf fer (h.y. dim cam Strategaeth a Ffefrir)
- Nifer cyfyngedig o bolisiau nad ydynt yn strategol yn ddarostyngedig i'w diwygio
- Sesiynau gwrandawriad sy'n para hyd at 4 diwrnod, heb Gyfarfod Cyn Gwrandawriad.

<b>Wythnos</b>	<b>Camau allweddol</b>
1 a 2	Fel yn Nhabl 1. Bydd yr archwiliad yn canolbwyntio ar y diwygiadau arfaethedig i'r CDLI a fabwysiedir.
3-4	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Drafftio sesiynau gwrandawriad a materion.</li> <li>• Mae'r Swyddog Cynllunio yn cylchredeg Nodiadau Arweiniad yr Arolygydd i gyfranogwyr ac yn cadarnhau presenoldeb mewn gwrandawriadau. (Os yw diwygiadau'r cynllun yn syml a heb fod yn gynhennus, mae'n bosibl na fydd gofyn am sesiynau gwrandawriad. Mewn achosion o'r fath, bydd yr archwiliad yn mynd yn ei flaen trwy sylwadau ysgrifenedig.)</li> <li>• Mae'r ACLI yn hysbysebu dyddiad cychwyn y sesiynau gwrandawriad o leiaf 6 wythnos o flaen llaw.</li> <li>• Mae'r ACLI a'r cyfranogwyr yn dechrau gweithio ar ddarparu unrhyw ddatganiadau ysgrifenedig y gofynnwyd amdanynt gan yr Arolygydd. Mae'r Arolygydd yn cymryd gofal o'r broses o ran yr hyn y gellir ei gyflwyno. Fel arfer, bydd y dyddiad ar gyfer cyflwyno ymatebion i'r Arolygydd yr un peth ar gyfer yr holl bartion. Y nod fydd rhoi gwybodaeth i'r Arolygydd, nid i greu gwrthddadleuon.</li> </ul>
8	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae ymatebion a datganiadau gan yr ACLI a chyfranogwyr yn ddyledus.</li> <li>• Mae'r Swyddog Rhaglen yn cylchredeg datganiadau gan yr ACLI a chyfranogwyr eraill ymhell cyn i'r gwrandawriadau ddechrau, fel bod pob parti yn hollol ymwybodol o'r dystiolaeth/pwyntiau sy'n cael eu gwneud.</li> </ul>
9	Mae'r Swyddog Cynllunio yn cylchredeg agendâu manwl o sesiynau gwrandawriad i'r cyfranogwyr perthnasol.
10+ ymlaen	<b>SESIYNAU GWRANDAWRIAD</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Tasgau fel yn Nhabl 1.</li> </ul>
11 + ymlaen	<b>ADRODD</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Tasgau fel yn Nhabl 1.</li> </ul>
15	Bydd yr adroddiad yn destun proses Sicrwydd Ansawdd fewnol yn yr Arolygiaeth cyn ei anfon. Mae'r broses hon yn para am 1 wythnos.
16	<b>ANFON GWIRIAD FFEITHIAU</b> Mae gan yr ACLI wythnos i ymgymryd â'r gwiriad ffeithiau.
17	Bydd yr Arolygydd yn ymateb i'r materion a'r gwiriad ffeithiau a sylwadau a godwyd gan yr ACLI.
18	<b>ADRODDIAD TERFYNOL</b> Caiff yr adroddiad terfynol ei anfon.

## 2. Cyflwyniad

- 2.1. Ni fydd y broses archwilio'n dechrau hyd nes y cyflwynir y CDLI neu ddiwygiadau'r cynllun i Lywodraeth Cymru a'r Arolygiaeth Gynllunio, gan gynnwys sylfaen dystiolaeth gyflawn, dogfennau ategol ac atodiad newidiadau â ffocws, os cafodd ei gynhyrchu<sup>3</sup>. Dylid penodi Swyddog Rhaglen ar y cam adneuo ac fe ddylai fod mewn sefyllfa, cyn gynted ag y cyflwynir y Cynllun, i weithredu fel cyswllt rhwng yr Arolygydd a'r ACLI gyda'r nod o drefnu'r Cyfarfod Cyn Gwrandawriad a dyddiad ar gyfer y gwrandawriadau.
- 2.2. Cyn belled ag y bo'r ACLI wedi bodloni'r gofynion statudol a gweithdrefnol ar yr adeg cyflwyno, a bod Swyddog Rhaglen yn ei le, bydd yr Arolygiaeth yn penodi'r Arolygydd ac yn neilltuo amser yr Arolygydd. Er na fydd yr Arolygydd yn cael ei benodi'n ffurfiol hyd nes y cyflwynir y CDLI, yn ymarferol, bydd angen i'r Arolygiaeth fod wedi neilltuo'r Arolygydd ar gyfer y gwaith hwn sawl mis o flaen llaw. Felly, mae'n hanfodol bod yr ACLI yn cadw mewn cysylltiad agos â'r Arolygiaeth ar ôl y cam adneuo er mwyn rhoi'r rhybudd mwyaf am unrhyw newid i'r dyddiad cyflwyno disgwylidig. Bydd tîm Cynlluniau Datblygu Lleol yr Arolygiaeth yn cynorthwyo'r Arolygydd i asesu faint o amser paratoi, gwrandawrio ac adrodd y mae'n debygol y bydd ei angen.

### ***Newidiadau i'r CDLI adneuo cynnar***

- 2.3. O fewn y pythefnos cyntaf, bydd swyddogion cynllunio'r Arolygiaeth yn cynnal ymarfer cwmpasu cynnar o'r CDLI o ran gweithdrefn a chynnwys i'w drosglwyddo i'r Arolygydd. Os caiff materion technegol lefel uchel eu codi, gallai trefniadau priodol gael eu gwneud i roi cymorth arbenigol i'r Arolygydd arweiniol, a allai gynnwys defnyddio Arolygydd Cynorthwyol neu gyflogi ymgynghorydd arbenigol allanol. Gallai swyddogion cynllunio'r Arolygiaeth roi cymorth yn y sesiynau gwrandawriad hefyd a helpu i baratoi drafftiau cychwynnol o rannau o adroddiad yr Arolygydd. Fodd bynnag, yr Arolygydd fydd yn gyfrifol am yr adroddiad cyfan yn y pen draw.
- 2.4. Mae'r broses archwilio'n darparu cryn dipyn o hyblygrwydd o ran y ffordd y gall digwyddiadau ddatblygu. Mae'n galluogi'r Arolygydd i gynnal cyfarfodydd gweithdrefnol (cyn i'r gwrandawriadau ddechrau) neu sesiynau gwrandawriad ychwanegol os bydd eu hangen ar unrhyw gam drwy gydol proses yr archwiliad. O ystyried yr hyblygrwydd hwn, bydd yr Arolygydd yn cadw mewn cysylltiad agos â'r Swyddog Rhaglen er mwyn sicrhau bod pawb dan sylw yn cael gwybod am unrhyw wyro angenrheidiol o'r rhaglen gytunedig.

---

<sup>3</sup> Rhoddir canllawiau ar wahân i Awdurdodau Cynllunio Lleol ar broses cyflwyno'r CDLI yn 'Paratoi ar gyfer cyflwyno: canllawiau i Awdurdodau Cynllunio Lleol'.

## ***Newidiadau i'r CDLI wedi'i Adneuo/diwygiadau i'r cynllun cyn cyflwyno sy'n 'ffocysedig' neu'n 'fach'***

- 2.5. Mae Adran 64(2)(b) Deddf 2004 yn datgan yn benodol na ddylai ACLI gyflwyno CDLI oni bai ei fod o'r farn bod y cynllun yn barod i'w archwilio. Dylai ACLIau asesu CDLI yn drylwyr cyn ei osod ar adnau er mwyn sicrhau ei fod yn gynllun sy'n gadarn, yn eu barn hwy, o ystyried profion cadernid Llywodraeth Cymru (gweler yr Atodiad). Dylai'r CDLI neu'r diwygiadau i'r cynllun a gaiff eu hadneuo fod yn rhai y mae'r ACLI yn bwriadu eu cyflwyno er mwyn eu harchwilio. Ar ôl ystyried sylwadau a wnaed ar gynigion yr adnau, caiff yr ACLI ddewis gwneud 'newidiadau canolbwytiedig' cyn eu cyflwyno, ond dylai'r rhain fod yn eithriad a dylent perthyn yn glir i faterion cadernid posibl.
- 2.6. Bydd yr Arolygydd yn egluro statws (unrhyw) atodiad 'newidiadau â ffocws' yn y Cyfarfod Cyn Gwrandawriad. Cyn belled ag y bo'r atodiad newidiadau â ffocws wedi bod yn destun ymgynghoriad ac Arfarniad o Gynaliadwyedd /SEA/HRA diwygiedig (os oes angen), fe'i derbynnir yn rhan o'r CDLI a gyflwynwyd. Byddai'r CDLI /diwygiadau i'r cynllun a'r atodiad newidiadau â ffocws yn cael eu darllen gyda'i gilydd ac yn fan cychwyn ar gyfer ystyriaethau cadernid.
- 2.7. Dylai unrhyw fân newidiadau golygu, gan gynnwys camgymeriadau drafftio ac argraffyddol, gael eu hamlinellu mewn atodiad ar wahân a gyflwynir gyda dogfennau'r CDLI. Nid oes angen rhoi cyhoeddusrwydd i fân newidiadau golygu a, chyn belled ag y bo'r Arolygydd yn derbyn eu bod yn ddibwys, byddant yn cael eu trin yn rhan o'r CDLI a gyflwynwyd ac ni chyfeirir atynt yn adroddiad yr Arolygydd. Os yw'r Arolygydd o'r farn nad yw unrhyw newidiadau yn yr atodiad yn rhai dibwys, bydd yn rhoi gwybod i'r ACLI cyn gynted â phosibl. Bydd angen i unrhyw newidiadau yr ystyrir eu bod yn arwyddocaol gael eu tynnu o'r atodiad os yw'r olaf am gael ei dderbyn yn rhan o'r cynllun a gyflwynwyd. Gan na fydd y newidiadau hyn wedi'u cynnwys mewn unrhyw atodiad, ac felly heb gael cyhoeddusrwydd mewn unrhyw ffordd, ni fyddant yn cael eu hymsefydlu yn rhan o'r CDLI/diwygiadau i'r cynllun, a byddai angen eu trin fel newidiadau ôl-gyflwyno.

### **Diwygio neu ddisodli cynllun**

- 2.8. Pan fydd archwiliad yn perthyn i ddiwygio neu ddisodli CDLI a fabwysiedir, bydd yr ACLI wedi paratoi Adroddiad Diwygio<sup>4</sup> er mwyn adnabod pa rannau o'r cynllun a fabwysiedir sydd angen eu diwygio, a, lle bo'n briodol, pa weithdrefn diwygio sydd i'w dilyn. Mae'r adroddiad hwn yn bwysig o ran penderfynu ar gwmpas yr archwiliad. Mae paragraff 2.5.25 o Bolisi Cynllunio Cymru yn datgan y bydd archwiliad diwygiadau arfaethedig yng nghyd-

---

<sup>4</sup> Mae'n ofynnol i ACLIau baratoi Adroddiad Adolygu cyn unrhyw adolygiad / disodli arfaethedig, yn dilyn adolygiad llawn neu ddetholus (a69 a Rheoliad 41).

destun y cynllun a fabwysiedir. O ganlyniad, fel arfer, ni fydd Arolygydd yn archwilio darnau 'eraill' o'r cynllun a fabwysiedir (h.y. y darnau nas cynigiwyd eu newid) oni bai:

- Bod y dystiolaeth yn nodi y gallai rhannau 'eraill' y cynllun fod yn ansicr, neu
- Y bydd y diwygiadau arfaethedig yn cael effeithiau clir ôl-ddilydol ar rannau 'eraill' y cynllun a allai, o bosibl, beryglu cadernid y cynllun yn ei gyfanrwydd.

- 2.9. Pan fydd CDLI yn mynd i gael ei ddiwygio'n rhannol, bydd yr archwiliad fel arfer yn canolbwyntio ar fersiwn 'wedi ei farcio' o'r cynllun a fabwysiedir yn ymgorffori diwygiadau (h.y. yn dangos y newidiadau i'r testun wedi'u hamlygu'n fras/wedi'u croesi allan). Pan fydd diwygiadau'n gymharol hunangynhwysol, caiff y ddogfen archwilio ond cynnwys y rhan(nau) hynny o'r ddogfen archwilio sy'n destun newid (mae hyn yn gymwys yn benodol ar gyfer cynlluniau a fu'n destun gweithdrefn diwygio 'ffurf fer').
- 2.10. Os bydd CDLI a fabwysiedir yn mynd i gael ei ddiwygio'n llawn (h.y. cynigir strategaeth newydd, gyda goblygiadau ar gyfer pob polisi/dyraniad y polisi), neu os cafodd cynllun disodli ei adneuo, bydd fersiwn 'lân' o'r cynllun newydd yn destun yr archwiliad.

### 3. Paratoi ac archwiliad cychwynnol

- 3.1. Erbyn wythnos 2 fan bellaf, bydd yr Arolygydd yn dechrau arfarniad cynnar o'r CDLI neu ddiwygiadau i'r cynllun ac yn cysylltu â'r Swyddog Rhaglen. Bydd y cyswllt cychwynnol hwn yn galluogi'r Arolygydd i ddechrau sefydlu trefniadau gweithio. Bydd yr Arolygydd yn cadarnhau dyddiad y Cyfarfod Cyn Gwrandawriad trwy'r Swyddog Rhaglen a dyddiad dros dro'r gwrandawriad. Bydd y Swyddog Rhaglen yn anfon llythyr cychwynnol at y rhai a gyflwynodd sylwadau er mwyn sefydlu cyswllt â hwy ac amlinellu amserlen ddrafft yr archwiliad. Bydd yr Arolygydd yn darparu Nodiadau Arweiniol i'r cyfranogwyr. Bydd y Nodiadau'n amlinellu'r gweithdrefnau sydd i'w defnyddio yn yr archwiliad, y terfynau amser ar gyfer cyflwyno deunydd ychwanegol y gofynnwyd amdano gan yr Arolygydd, a'r hyn a ddisgwylir yn y sesiynau gwrandawriad. Gall y rhain gyflymu'r Cyfarfod Cyn Gwrandawriad trwy helpu'r cyfranogwyr i ddeall y gweithdrefnau.
- 3.2. Trwy ddarllen y dogfennau'n fanylach yn ystod y cyfnod hwn, dylai'r Arolygydd allu:
- Amlygu materion a phynciau, gan gynnwys unrhyw ddiffygion sylfaenol neu gronnus<sup>5</sup> a allai awgrymu bod angen cynnal cyfarfod archwiliadol;
  - Sefydlu strwythur y gwrandawriadau;
  - Dyrannu cyfranogwyr i sesiynau gwrandawriad; a
  - Penderfynu a oes angen deunydd ychwanegol gan y cyfranogwyr ac, os felly, pa ddeunydd.

#### ***Amlygu materion a phynciau***

- 3.3. Bydd yr archwiliad yn cael ei strwythuro o amgylch y pynciau a amlygwyd gan yr Arolygydd fel rhai sy'n hollbwysig i gadernid y cynllun. Bydd datganiad yr ACLI ynghylch y prif bynciau a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad adneuo, sut yr ymdriniwyd â'r rhain yn y Cynllun a'i argymhellion ynglŷn â'r sylwadau o gymorth arbennig i'r Arolygydd; darperir hyn gan yr ACLI yn ei Adroddiad Ymgynghori o dan reoliad 22 (2)(c). Fodd bynnag, ni fydd y prif faterion a adnabyddir gan yr ACLI yn pennu strwythur yr archwiliad, gan nad yw absenoldeb sylwadau ar fater yn warant o gadernid (ac fel arall). Yn hytrach, mae'n rhaid i'r strwythur ddeillio o ddull rhagweithiol a chwilysol yr Arolygydd o ystyried cadernid. Bydd yr Arolygydd yn osgoi treulio amser yn y gwrandawriadau yn ystyried pethau na fydd yn helpu i wneud penderfyniad ynghylch pa un a yw'r cynllun yn gadarn.

---

<sup>5</sup> Byddai diffygion cronrus yn arwydd o sefyllfa ddifrifol o bosibl lle gallai'r nifer fawr o newidiadau y mae angen i'r Arolygydd eu gwneud i'r CDLI a gyflwynwyd beri i'r cynllun fod yn wahanol iawn i'r cynllun a gyflwynwyd yn wreiddiol (sy'n debygol o beryglu'r ystyriaethau arfarniad o gynaliadwyedd a chyfranogiad cymunedol).

- 3.4. Un o dasgau cyntaf yr Arolygydd yw sefydlu'r 'materion' a 'phynciau' i ymchwilio iddynt yn ystod yr archwiliad:
- 'Materion' – mae enghreifftiau'n cynnwys darpariaeth tai, darpariaeth tir ar gyfer cyflogaeth, strategaeth aneddiadau neu risg llifogydd;
  - 'Pynciau' – neu'r pwyntiau allweddol y bydd penderfyniadau ynglŷn â chadernid y cynllun yn dibynnu arnynt;
- 3.5. Fel arfer, bydd yr Arolygydd yn paratoi rhestr ddrafft o faterion a phynciau i'w trafod yn y Cyfarfod Cyn-gwrandawriad (os caiff un ei gynnal). Yna bydd y rhestr derfynol yn ffurfio'r sail ar gyfer unrhyw dystiolaeth ysgrifenedig neu lafar a ddarperir gan gyfranogwyr yn yr archwiliad.
- 3.6. Ar gyfer diwygiadau i'r cynllun, bydd yr Arolygydd yn ystyried pob sylw a wnaed yn ystod yr ymgynghoriad adneuo ond bydd yn ffurfio materion a phynciau dim ond i'r graddau eu bod yn perthyn i ddiwygiadau'r cynllun a gynigir gan yr ACLI, yn ogystal ag unrhyw rannau eraill o'r cynllun y mae'r Arolygydd yn ystyried y gellir effeithio arnynt fel canlyniad i ddiwygiadau i'r cynllun.

### ***Diffygion sylfaenol / cronrus***

- 3.7. Wrth ystyried y materion a'r pynciau, bydd Arolygwyr yn ceisio amlygu unrhyw ddiffygion sylfaenol neu gronrus ar y cyfle cynharaf. Bydd hyn yn osgoi gwastraffu amser ac arian os oes problemau mawr yn gysylltiedig â'r CDLI a gyflwynwyd/a ddiwygiwyd (neu os nad yw'n ymddangos yn gadarn ar yr olwg gyntaf). Gallai'r gwaith cynnar amlygu materion neu bynciau allweddol y bydd angen i'r Arolygydd eu trafod cyn unrhyw sesiwn gwrandawriad. Gan y bydd yr archwiliad yn dechrau ar yr adeg gyflwyno, gallai'r Arolygydd gynnal cyfarfod(ydd) archwiliadol yn gynnar, fel arfer cyn y Cyfarfod Cyn Gwrandawriad, i gael eglurhad ynghylch unrhyw faterion a phynciau a allai effeithio ar y broses archwilio.
- 3.8. Os yw'r Arolygydd o'r farn bod gan y CDLI a gyflwynwyd/a ddiwygiwyd ddiffygion difrifol, bydd yn rhoi gwybod i'r ACLI cyn gynted â phosibl. Gwneir hyn yn ysgrifenedig i ddechrau (trwy'r Swyddog Rhaglen) ac, os na chaiff ei ddatrys wedi hynny trwy gyfnewid gohebiaeth, bydd cyfarfod archwiliadol yn cael ei drefnu.
- 3.9. Mae Arolygwyr yn annhebygol o ddod i unrhyw gasgliadau pendant ar y cam hwn, ond byddant yn amlinellu eu pryderon mewn cyfarfod archwiliadol. Bydd yn anodd i'r Arolygydd wneud canfyddiad pendant o ddiffyg cadernid cyn cynnal y sesiynau gwrandawriad, oherwydd dyna lle y rhoddir prawf ar y dystiolaeth. Mewn achosion eithriadol, gallai'r Arolygydd ystyried na ellir cwblhau'r archwiliad heb wneud gwaith ychwanegol (fel yr angen am gynnal arfarniad ychwanegol o gynaliadwyedd o ddewisiadau amgen) a allai olygu bod angen ystyried gohirio'r archwiliad neu, yn y sefyllfa waethaf posibl, tynnu'r CDLI yn ôl neu ddiwygiadau i'r cynllun.

- 3.10. Rhoddir rhagor o arweiniad ar y gweithdrefnau sy'n ymwneud â chyfarfodydd archwiliadol a gohirio ym Mhennod 9.

### ***Dyrannu cyfranogwyr i wrandawiadau***

- 3.11. Mae'r rhai hynny sydd â hawl i ymddangos a chael eu clywed wedi'u cyfyngu i'r rhai hynny a ddiffinnir yn adran 64 (6) Deddf 2004 (h.y. unrhyw unigolyn/unigolion sydd wedi cyflwyno sylwadau yn ceisio newid i'r CDLI neu i' diwygiadau i'r cynllun arfaethedig). Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd yr Arolygydd wahodd unrhyw un i ymddangos a chael ei glywed yn y sesiwn/sesiynau gwrandawriad os yw'n credu bod angen yr unigolyn hwnnw i allu penderfynu ar gadernid y cynllun. Bydd gwahoddiadau i bartïon nad ydynt wedi ceisio mynychu'r sesiynau gwrandawriad yn cael eu rhoi lle y bo'r angen yn unig. Ni all Arolygwyr fynnu bod unrhyw unigolyn yn mynychu gwrandawiadau'r archwiliad.
- 3.12. Bydd Arolygydd yn dechrau trwy ddyrannu'r rhai hynny sy'n dymuno cael eu clywed i un o'r prif faterion neu bynciau<sup>6</sup>. Bydd cynrychiolwyr sydd â diddordeb mewn materion, polisiau ac ardaloedd daearyddol tebyg yn cael eu gwahodd i'r un sesiwn gwrandawriad. Bydd y Swyddog Rhaglen yn cynorthwyo'r Arolygydd â'r broses ddyrannu. Fel arfer, bydd unrhyw un sy'n dymuno cael ei glywed ond nad yw ei bryderon yn cyd-fynd â'r prif bynciau yn cael ei glywed yn y sesiynau tua diwedd y gwrandawiadau. Dylai cynrychiolwyr gofio y rhoddir yr un pwys i sylwadau ysgrifenedig â'r rhai a wneir mewn gwrandawriad.
- 3.13. Pan fydd diwygiadau i gynllun presennol yn cael eu harchwilio, mae'n bosibl y bydd sylwadau wedi'u gwneud nad ydynt yn perthyn i'r diwygiadau arfaethedig i'r cynllun. Yn y fath amgylchiadau, mae gan yr Arolygydd y disgrisiwn i benderfynu ar berthnasedd y sylwadau hyn ac, o ganlyniad, a oes gofyn i wrthwynebiad gael ei glywed mewn sesiwn gwrandawriad.
- 3.14. Cyn y Cyfarfod Cyn Gwrandawriad, bydd y Swyddog Rhaglen yn egluro a chadarnhau'r rhai a fydd yn bresennol yn y sesiynau gwrandawriad. Bydd yr Arolygydd yn cwblhau'r rhaglen ar gyfer y sesiynau gwrandawriad cyn gynted â phosibl ar ôl y Cyfarfod Cyn Gwrandawriad.

### ***Deunydd ysgrifenedig ychwanegol gan gyfranogwyr***

- 3.15. Ni ddylai papurau gael eu cyflwyno os nad yw'r Arolygydd wedi gofyn amdanynt. Dylai ACLlau a chyfranogwyr eraill aros am gyfarwyddiadau penodol gan yr Arolygydd a benodwyd ynghylch pa ddeunydd ychwanegol,

---

<sup>6</sup> Mae'n ddefnyddiol gweld a yw'r ACLI yn nodi pa gynrychiolwyr sy'n dymuno cael eu clywed mewn perthynas â materion penodol (gweler 'Paratoi ar gyfer cyflwyno: canllawiau i Awdurdodau Cynllunio Lleol' i gael rhagor o wybodaeth).

os o gwbl, y bydd angen iddynt ei gynhyrchu cyn i'r gwrandawiadau ddechrau. Mae deunydd ysgrifenedig digymell gan unrhyw barti, gan gynnwys yr ACLI, yn debygol o gael ei ddychwelyd gan yr Arolygydd.

- 3.16. Wrth wneud penderfyniad ynglŷn â pha ddeunydd ychwanegol y gallai fod ei angen, bydd yr Arolygydd yn cael ei arwain gan yr hyn y mae'n ystyried yw'r pynciau allweddol bwysig o ran cadernid y CDLI a'r deunydd a gyflwynwyd eisoes. Gallai'r rhain gynnwys rhywbeth a amlygwyd gan yr Arolygydd ond na chodwyd mewn unrhyw sylwadau. Bydd yr Arolygydd yn llunio rhestr o faterion a phynciau y bydd angen, o bosibl iddo/iddi gael ymateb ysgrifenedig iddynt gan y rhai a gyflwynodd sylwadau. Gallai'r Arolygydd roi nodyn trafod manylach os yw'n credu bod hyn yn angenrheidiol i helpu i esbonio'r pwyntiau y mae angen eu hegluro ymhellach. Pan fydd gwrthwynebwr (SoCG) yn codi mater o bwys, gallai'r Arolygydd ei wahodd i gyflwyno datganiad o dir cyffredin os na chyflwynwyd un gyda'r CDLI<sup>7</sup>. Fodd bynnag, ni fydd y ffaith bod y partïon yn cytuno ar rai materion, o bosibl, yn atal yr Arolygydd rhag ymchwilio i'r materion hynny ymhellach os oes angen.
- 3.17. Bydd unrhyw ddeunydd ychwanegol a gynhyrchwyd gan y cyfranogwyr mewn ymateb i gais penodol gan yr Arolygydd yn cael ei ddsbarthu gan y Swyddog Rhaglen. Caiff deunydd ysgrifenedig nad yw'n ymateb i faterion a chwestiynau'r Arolygydd ei ddychwelyd.

---

<sup>7</sup> Mae Llawlyfr CDLI yn argymhell Datganiad o Dir Cyffredin cyn cyflwyno.



## 4. Y Cyfarfod Cyn Gwrandawriad

- 4.1. Os bydd un yn ofynnol, bydd dyddiad addas ar gyfer y Cyfarfod Cyn Gwrandawriad yn cael ei osod yn fuan iawn ar ôl i'r CDLI gael ei gyflwyno er mwyn sicrhau bod cyfnod rhesymol o rybudd yn cael ei roi. Nid yw'r union gyfnod wedi'i bennu, ond argymhellwn y dylai'r ACLI roi o leiaf 4 wythnos o rybudd. Gall partïon ddisgwyl i'r Cyfarfod Cyn Gwrandawriad gael ei gynnal tua 8 wythnos ar ôl ei gyflwyno. Fodd bynnag, gallai fod oedi os yw'r ACLI yn rhoi cyhoeddusrwydd i newidiadau i'r CDLI sydd wedi'i adneuo neu ddiwygiadau i'r cynllun yn dilyn eu cyflwyno.
- 4.2. Mae'n bwysig bod pawb sy'n dymuno bod yn rhan o'r sesiynau gwrandawriad yn bresennol yn y Cyfarfod Cyn Gwrandawriad. Dylai'r awdurdod a'r rhai hynny sydd wedi cyflwyno sylwadau yn ceisio newidiadau i'r CDLI neu ddiwygiadau arfaethedig i'r cynllun fod yn barod i gyfrannu yn y Cyfarfod Cyn Gwrandawriad. Er na fydd peidio â bod yn bresennol yn y Cyfarfod yn effeithio ar eu hawl i gael eu clywed, dylai'r rhai hynny sy'n bwriadu ymddangos yn yr archwiliad wneud pob ymdrech i fod yno. Ni fydd teilyngdod y cynllun yn cael ei drafod yn y Cyfarfod Cyn Gwrandawriad. Fodd bynnag, yn ogystal â materion gweithdrefnol, gwahoddir y partïon i wneud sylwadau ar y materion a'r pynciau a amlygwyd i'w hystyried gan yr Arolygydd.
- 4.3. Os caiff diwygiadau syml i'r cynllun eu cynnig, nad ydynt yn ddadleuol, ac nid oes unrhyw un yn dymuno ymddangos mewn gwrandawriad, gallai'r Arolygydd ymdrin â'r archwiliad trwy sylwadau ysgrifenedig, gan felly osgoi'r angen i gynnal Cyfarfod Cyn Gwrandawriad. Yn yr un modd, lle mae Arolygydd yn bwriadu ymdrin â'r archwiliad trwy nifer gyfyngedig o sesiynau gwrandawriad, gallai'r Arolygydd ymdrin â materion y Cyfarfod Cyn Gwrandawriad trwy gyfnewid gohebiaeth yn unig.
- 4.4. Yn y Cyfarfod Cyn Gwrandawriad, bydd yr Arolygydd yn:
- Esbonio ei fod wedi'i benodi i gynnal archwiliad annibynnol o'r CDLI a gyflwynwyd/a ddiwygiwyd er mwyn sicrhau ei fod yn bodloni'r gofynion statudol ar gyfer ei baratoi a'i fod yn 'gadarn', ac wedi hynny i lunio adroddiad ar gyfer yr ACLI sy'n cynnwys argymhellion rhwymol;
  - Esbonio y dylai'r ACLI ystyried bod y CDLI yn gadarn fel y'i cyflwynwyd neu fel y'i diwygiwyd gan y diwygiadau arfaethedig i'r cynllun;
  - Esbonio rôl y Swyddog Rhaglen, sef unigolyn diduedd sy'n cynorthwyo'r Arolygydd â materion gweinyddol a gweithdrefnol; gweithredu fel cyfrwng cyfathrebu rhwng yr Arolygydd, yr ACLI ac aelodau'r cyhoedd; gwneud y trefniadau ar gyfer y sesiynau gwrandawriad a chysylltu â phawb er mwyn sicrhau bod y broses yn mynd rhagddi'n ddidrafferth; sicrhau bod yr holl ddogfennau sy'n gysylltiedig â'r archwiliad yn cael eu derbyn, eu cofnodi a'u dosbarthu, a chynnal Llyfrgell yr Archwiliad o ddogfennau craidd;
  - Amlinellu'r gweithdrefnau sydd i'w dilyn yn ystod yr archwiliad, gan gynnwys y sesiynau gwrandawriad;
  - Pwysleisio y bydd yr holl dystiolaeth yn cael ei hystyried ac y rhoddir yr un pwys i sylwadau ysgrifenedig â thystiolaeth lafar;

- Esbonio rôl rhestr yr Arolygydd o faterion a phynciau o ran canolbwyntio'r drafodaeth yn y sesiynau gwrandawriad a galluogi'r Arolygydd i gadarnhau cydymffurfiad cyfreithiol a phrofi cadernid. Bydd yr Arolygydd yn clywed trafodaeth ac yn sicrhau cytundeb ar y rhestr ddrafft o faterion a phynciau, a bydd yn agored i'w hamrywio os cyflwynir newidiadau rhesymol. Bydd yn pwysleisio bod yn rhaid i unrhyw ddatganiadau a wneir yn yr archwiliad ymdrin â'r materion a'r pynciau yn unig;
- Trafod yr amserlen ar gyfer sesiynau gwrandawriad, a'r amserau tebygol y bydd y cyfranogwyr yn ymddangos. Dylai pawb gael gwybod y gallai'r rhaglen newid a bod yn rhaid i'r cyfranogwyr gadw mewn cysylltiad â'r Swyddog Rhaglen. Bydd yr Arolygydd yn pwysleisio'r angen i gadw at amserlen yr archwiliad; a
- Chynnig cyfle i gwestiynau gael eu gofyn i'r Arolygydd am faterion gweithdrefnol ac iddo ef ofyn cwestiynau i eraill.

4.5. Bydd yr Arolygydd hefyd yn ceisio cadarnhad gan yr ACLI bod materion gweithdrefnol a materion eraill wedi derbyn sylw'n briodol, yn enwedig:

- Bod y CDLI/diwygiadau i'r cynllun wedi'u paratoi yn unol â'r gweithdrefnau statudol;
- Bod gofynion ar gyfer arfarniad o gynaliadwyedd wedi'u bodloni;
- Bod unrhyw ofynion ar gyfer asesiad priodol o dan y Rheoliadau Cynefinoedd wedi'u bodloni cyn cyflwyno; a
- Bod rhestr o ddogfennau craidd, sy'n darparu sylfaen dystiolaeth, wedi'i llunio ac ar gael i'w harchwilio ar-lein (lle bynnag y bo'n bosibl) ac ar ffurf bapur.

4.6. Erbyn i'r Cyfarfod Cyn Gwrandawriad gael ei gynnal, dylai'r ACLI sicrhau ei fod wedi rhoi cyhoeddusrwydd i ddyddiad dechrau'r sesiynau gwrandawriad yn unol â'r gofyniad rheoleiddiol (Mae Pennod 1 yn amlinellu amserlenni dangosol ar gyfer sesiynau gwrandawriad).

4.7. Yn y Cyfarfod Cyn Gwrandawriad, bydd yr Arolygydd yn esbonio natur anffurfiol y sesiynau gwrandawriad. Os yw unrhyw gyfranogwr (gan gynnwys yr ACLI) o'r farn bod angen dull mwy ffurfiol o ymdrin ag unrhyw fater penodol, dylai godi hyn gyda'r Arolygydd cyn gynted â phosibl, yn ddelfrydol yn y Cyfarfod Cyn Gwrandawriad os nad cyn hynny.

4.8. Bydd y Swyddog Rhaglen yn dosbarthu nodiadau'r Cyfarfod Cyn Gwrandawriad, ynghyd â'r rhaglen ar gyfer y sesiynau gwrandawriad a'r rhestr derfynol o faterion a phynciau ar gyfer y gwrandawriadau cyn gynted â phosibl ar ôl y Cyfarfod Cyn Gwrandawriad.

## **5. Paratoi ar gyfer y sesiynau gwrandawriad**

### ***Datganiadau ysgrifenedig***

- 5.1. Dylai datganiadau gan gyfranogwyr ynglŷn â'r materion a'r pynciau gael eu cyflwyno dim ond os gofynnir amdanynt gan yr Arolygydd ac mae'n rhaid iddynt ganolbwyntio ar y materion a'r pynciau diffiniedig. Os yw'r Arolygydd yn teimlo bod angen, gall ofyn i gyfranogwyr mewn sesiynau gwrandawriad gyflwyno datganiadau o hyd cyfyngedig (dim mwy na 3000 o eiriau).
- 5.2. Dylai'r ACLI a chyfranogwyr ddechrau gweithio ar ddarparu unrhyw ddeunydd y gofynnir amdano gan yr Arolygydd cyn gynted â phosibl. Rhoddir terfyn amser ar gyfer dychwelyd datganiadau. Dylai gael ei osod oddeutu 2 wythnos cyn dechrau'r gwrandawriadau cyntaf. Mae'n bwysig bod pawb yn cadw at yr amserlen a'r terfynau amser a osodir gan yr Arolygydd ar gyfer cyflwyno datganiadau fel bod yr Arolygydd yn cael digon o amser i ystyried eu cynnwys a pharatoi'n briodol ar gyfer y gwrandawriadau. Ni fydd yr Arolygydd yn ystyried aildrefnu unrhyw sesiynau gwrandawriad o ganlyniad i gyflwyniad hwyr heblaw mewn amgylchiadau eithriadol.
- 5.3. Bydd y Swyddog Rhaglen yn cyfnewid a/neu ddsbarthu datganiadau cyn gynted ag y'u derbynnir. Fel arfer, ni ddylai fod angen i'r ACLI gyflwyno ei ddatganiad ar ddyddiad gwahanol (hwyrach) na chyfranogwyr eraill. Nid yw'r broses yn canolbwyntio ar 'ymateb i wrthwynebiadau' mwyach. Gwahoddir yr ACLI i fynd i'r afael â materion a phynciau'r Arolygydd, fel pawb arall. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, gallai'r Arolygydd benderfynu y byddai'n fuddiol cael ymateb gan yr ACLI i ddatganiadau a wnaed gan gynrychiolwyr. Yn yr achosion hyn, bydd yr Arolygydd yn gosod dyddiadau cyflwyno gwahanol.

### ***Agendâu ar gyfer sesiynau gwrandawriad***

- 5.4. Mewn llawer o achosion, bydd yr agenda ar gyfer gwrandawriadau yr un fath â'r 'materion a'r pynciau' a nodir gan yr Arolygydd ar gyfer paratoi datganiadau ysgrifenedig. Yn amlwg, os defnyddir yr un rhestr o faterion a phynciau fel agenda, ni fydd angen dosbarthu papur arall. Fodd bynnag, os codir cwestiynau ychwanegol, neu os caiff rhai pwyntiau eu hegluro'n foddhaol yn y cyflwyniadau ysgrifenedig, gallai fod angen i'r Arolygydd ddiwygio'r agenda ar gyfer y gwrandawriadau.
- 5.5. Bydd nodyn neu agenda'r Arolygydd yn creu pwyslais cryf ar gyfer pob sesiwn gwrandawriad trwy amlygu dilyniant eglur o bynciau a chwestiynau y bydd angen eu harchwilio ymhellach. Fe allai gynnwys crynodeb o'r themâu cyffredin y cytunir/ anghytunir amynt sy'n deillio o ddatganiadau'r gyfranogwyr. Gallai'r nodyn hefyd egluro unrhyw faterion technegol, fel y fethodoleg a ddefnyddir mewn astudiaeth asesu anghenion tai. Mewn rhai achosion, gellid cynnal seminar dechnegol cyn y sesiynau gwrandawriad (gweler Pennod 9).

- 5.6. Os na chafodd ei (d)diwygio cyn y Cyfarfod Cyn Gwrandawriad, bydd y Swyddog Rhaglen yn dosbarthu nodyn/agenda fanwl yr Arolygydd ar gyfer y drafodaeth ym mhob un o'r sesiynau gwrandawriad i'r holl gyfranogwyr dan sylw wythnos cyn i'r mater gael ei drafod.

## 6. Sesiynau gwrandawriad

- 6.1. Lle y bônt yn ofynnol, mae'r sesiynau gwrandawriad yn rhan bwysig o'r broses archwilio. Bydd yr Arolygydd wedi cwblhau'r archwiliad desg o'r CDLI ac yn dymuno bodloni'i hun yn y sesiynau gwrandawriad ynglŷn â'r materion sy'n weddill y mae angen eglurhad arnynt er mwyn pennu cadernid.
- 6.2. Bydd y sesiynau gwrandawriad yn anffurfiol, gyda'r Arolygydd yn archwilio ac arwain dadl ar y pynciau a amlygwyd o flaen llaw. Bydd yr Arolygydd yn gwahodd cyfraniad gan y rhai hynny sy'n dymuno cael eu clywed ac unrhyw un arall a allai fod yn angenrheidiol i archwilio'r pwnc perthnasol yn briodol; ni ddylai'r grŵp gynnwys mwy na 15 i 20 o bobl.
- 6.3. Y drefn ystafell fwyaf priodol ar gyfer sesiwn/sesiynau gwrandawriad fydd bwrdd petryalog gyda seddau ar gyfer hyd at 20 o bobl. Lle y bo'n bosibl, dylai pawb a fydd yn cyfrannu at y drafodaeth eistedd wrth y bwrdd. Os nad yw hyn yn bosibl, gofynnir i unrhyw bartïon a gynrychiolir gan dîm neu grŵp sy'n rhannu'r un safbwyntiau enwebu prif siaradwr. Yn yr un modd, gallai'r ACLI ddymuno trefnu bod staff cymorth ar gael a fydd yn eistedd y tu ôl i'r unigolyn sy'n ei gynrychioli.
- 6.4. Nid oes gan bartïon sy'n cyflwyno ceisiadau hwyr i fynychu gwrandawriadau ac nad ydynt wedi anfon sylwadau yn unol â'r amserlen statudol yr hawl i gael eu clywed, er y gallant fod yn bresennol i arsylwi unrhyw sesiwn gwrandawriad gan y cynhelir y rhain yn gyhoeddus. Bydd Arolygwyr yn gweithredu mewn ffordd gadarn ac ni fyddant yn ystyried sylwadau hwyr nas derbyniwyd yn ffurfiol gan yr ACLI. Mae gan Arolygwyr yr awdurdod i wahodd unrhyw barti i gymryd rhan yn y gwrandawriadau, a gallent wahodd pobl a/neu gyrff sydd â'r wybodaeth a'r arbenigedd angenrheidiol i gynnal ymchwiliad trylwyr o'r cynllun. Bydd yr Arolygydd yn sicrhau nad yw unrhyw barti a wahoddir i gymryd rhan yn y ffordd hon yn defnyddio'r gwahoddiad i gyflwyno sylwadau hwyr a wrthodwyd yn flaenrol gan yr ACLI fel rhai nas cyflwynwyd yn briodol.
- 6.5. Nid oes hawl gan y rhai a gyflwynodd sylwadau yn cefnogi'r CDLI a gyflwynwyd neu'r diwygiadau i'r cynllun i ymddangos. Fel y nodwyd yn flaenrol, y man cychwyn ar gyfer yr archwiliad yw'r rhagdybiaeth fod yr ACLI o'r farn bod y CDLI a gyflwynwyd neu a ddiwygiwyd yn gadarn. Gweithredir yn gadarn yn erbyn ceisiadau gan gefnogwyr i ymddangos gan fod eu safbwynt hwy wedi'i gynrychioli gan yr Awdurdod Cynllunio. Fodd bynnag, os yw'r Arolygydd o'r farn y byddai'n ddefnyddiol cael gwybod am fater sy'n ymwneud â chadernid gan rywun sy'n cefnogi'r CDLI a gyflwynwyd neu a ddiwygiwyd, fe allai ei wahodd i gymryd rhan.
- 6.6. Gan y bydd rhaglen y gwrandawriad wedi'i seilio ar sesiynau grŵp, disgwylir i bartïon sy'n dymuno ymddangos fynychu'r sesiynau sy'n berthnasol i'w sylwadau neu anfon cynrychiolydd os nad ydynt yn gallu bod yn bresennol ar y diwrnod penodol hwnnw. Os nad yw hyn yn bosibl, a bod pob cam rhesymol wedi'i gymryd i geisio bod yn bresennol, bydd yn rhaid iddynt

ddibynnu ar sylwadau ysgrifenedig. As the hearing programme will be based on group sessions, parties wishing.

- 6.7. Bydd y rhaglen gwrandawiadau'n ddwys ac yn canolbwyntio ar faterion penodol. O ganlyniad i natur y sesiynau gwrandawriad, mae'n debygol y bydd yr Arolygydd yn eistedd am 3 neu 4 diwrnod dwys yr wythnos i ganiatáu digon o amser paratoi rhwng sesiynau. Gall hyn amrywio yn dibynnu ar natur y CDLI a pha un a neilltuir mwy nag un Arolygydd i'r cynllun dan sylw. Mae'n debygol y bydd y rhaglen yn cynnwys egwyl. Gallai'r archwiliadau fod yn heriol iawn i ACLlau a bydd angen amser iddynt baratoi deunydd ac ymatebion i faterion a godwyd mewn sesiynau cynharach.
- 6.8. Fel arfer, disgwylir y bydd yr Arolygydd yn cynnal sesiynau gwrandawriad sy'n ystyried materion strategol yn gyntaf a bydd unrhyw egwyl yn dilyn y sesiynau strategaeth hyn fel rheol. Bydd hyn yn galluogi'r Arolygydd i ystyried y strategaeth a chaniatáu i'r dystiolaeth a gasglwyd lywio'r materion a'r pynciau i'w hystyried yn ddiweddarach. Mae'n bosibl y gallai pynciau gael eu nodi yn ystod yr egwyl hon sy'n newid y ffordd y mae'r gwrandawiadau'n mynd rhagddynt, newid agendâu neu amlygu'r angen am sesiynau ychwanegol.

### ***Agor y sesiynau gwrandawriad***

- 6.9. Cymerir y bydd pawb wedi darllen yr holl ddogfennau sy'n rhan o'r gwrandawriad, ac felly bydd y sesiynau'n canolbwyntio ar faterion a amlygwyd gan yr Arolygydd i'w trafod. Dylai'r sesiynau gwrandawriad ddilyn yr agenda a osodwyd gan yr Arolygydd. Fel y nodwyd yn flaenorol, bydd yr Arolygydd eisoes wedi penderfynu ar y materion a'r pynciau ar gam cynnar ar sail y ffaith ei fod wedi derbyn yr holl dystiolaeth, ac felly bydd cyflwyno tystiolaeth ychwanegol nas gofynnwyd amdani yn llesteirio'r broses. Bydd yr Arolygydd yn arfer ei ddisgresiwn wrth wrthod deunydd nas gofynnwyd amdano nad yw'n berthnasol i gadernid y cynllun.
- 6.10. Ar y diwrnod cyntaf, bydd yr Arolygydd yn:
- Rhoi cyflwyniad byr yn amlinellu diben a chymeriad y sesiynau gwrandawiadau yn ogystal ag esbonio canlyniadau posibl yr archwiliad;
  - Esbonio'n eglur y cwmpas sydd ganddo ar gyfer gwneud newidiadau i'r cynllun er mwyn sicrhau y mabwysiadir CDLI cadarn; a
  - Gwahodd yr ACLI i gyflwyno'r CDLI neu'r diwygiadau i'r cynllun a gwneud sylwadau ar ei gadernid, pe byddai'n dymuno gwneud hynny. Fodd bynnag, nid yw hyn yn angenrheidiol a dylai unrhyw gyflwyniad fod yn fyr gan y bydd y sesiwn yn symud ymlaen yn gyflym i ystyried y prif fater cyntaf.

### ***Fformatau ar gyfer clywed tystiolaeth***

- 6.11. Yr Arolygydd sydd i benderfynu ar y weithdrefn yn y gwrandawiadau. Ni ddylai fod angen cyflwyno tystiolaeth yn ffurfiol, a bydd croesholi ffurfiol yn

cael ei ddefnyddio mewn achosion eithriadol yn unig. Bydd gan y rhai sydd wedi cyflwyno sylwadau yn ceisio newidiadau i CDLI neu'r diwygiadau arfaethedig i'r cynllun ac sydd wedi mynegi dymuniad i siarad yn y sesiynau gwrandawriad yr hawl i gael eu clywed. Fodd bynnag, yr Arolygydd fydd yn pennu'r fformat ar gyfer clywed y dystiolaeth. Bydd yr Arolygydd yn defnyddio dull chwylsol ac yn sicrhau bod y CDLI yn cael ei roi ar brawf yn briodol yn erbyn y profion cadernid a'r dystiolaeth a gyflwynwyd.

- 6.12. Y fformat mwyaf cyffredin fydd sesiynau gwrandawriad y gwahoddir nifer o gyfranogwyr a chanddynt bryderon ynglŷn â'r un mater iddynt. Gwrandawiadau yw'r dull mwyaf effeithlon a dylai fod yn bosibl eu defnyddio i archwilio pob CDLI.
- 6.13. Weithiau, bydd ymatebwyr yn dymuno bod eu safbwyntiau'n cael eu cyfleu gan fargyfreithiwr neu gyfreithiwr, fel arfer yng nghwmni arbenigwr fel ymgynghorydd cynllunio. Er bod hyn yn dderbyniol, ni chaniateir i gyfreithwyr fabwysiadu rôl 'eirioli' ffurfiol fel mater o drefn, oherwydd fe all hyn anesmwytho cyfranogwyr eraill a thanseilio'r egwyddor partneriaid cydradd yn y drafodaeth.
- 6.14. Serch hynny, fe allai fod achlysuron lle mae angen defnyddio sgiliau cyfreithwyr/eiriolwyr. Mae fformat y sesiwn gwrandawriad yn caniatáu i'r Arolygydd addasu'r gweithrediadau i weddu i'r materion a'r pynciau sy'n cael eu trafod. Fe allai fod yn briodol i ran o'r sesiwn gwrandawriad ganiatáu ar gyfer cyflwyno dystiolaeth yn ffurfiol ac yna croesholi ac ailarchwilio. Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol iawn y bydd hyn yn digwydd, lle mae'r Arolygydd yn argyhoeddedig bod dull ffurfiol yn hanfodol er mwyn rhoi'r dystiolaeth ar brawf yn ddigonol. Mae hyn yn fwyaf tebygol o fod yn briodol pan fo'r Arolygydd yn teimlo bod y materion a godwyd yn dra thechnegol neu gymhleth.
- 6.15. Pe byddai unrhyw gyfranogwr am i'r Arolygydd ystyried ymdrin â phwnc penodol gan ddefnyddio'r dull ffurfiol hwn, rhaid iddo fod yn barod i gyflwyno achos cryf. Mae'n rhaid i bartion roi gwybod i'r Arolygydd cyn gynted â phosibl os ydynt yn credu bod angen defnyddio dull ffurfiol. Dylid cyflwyno cyfiawnhad manwl gyda'r cais hwn. Rhoddir gwybod i'r cyfranogwyr eraill ac, er tegwch, fe'u gwahoddir i ystyried a fyddent hwy'n hoffi cael cynrychiolaeth debyg. Os nad oes eiriolwyr ar gael fe allai hynny achosi problem ac, wrth benderfynu a yw dull ffurfiol yn briodol, bydd yr Arolygydd yn ystyried yr effaith ar y rhaglen.
- 6.16. Yr Arolygydd fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol. Lle y penderfynir bod angen defnyddio dull ffurfiol, bydd y cyfranogwyr yn cael gwybod cyn y sesiwn gwrandawriad y bydd croesholi'n cael ei ganiatáu ar bwnc penodol.
- 6.17. O ganlyniad, fel arfer, ni fydd angen i unrhyw barti gyflogi eiriolwr i gyflwyno ei achos. Gall bargyfreithwyr a chyfreithwyr gymryd rhan yn y trafodaethau grŵp anffurfiol ar yr un sail ag unrhyw barti arall, yn amodol ar y cyfyngiadau ar y nifer a all gymryd rhan yn rhesymol yn y trafodaethau.

- 6.18. Gallai bod yn fuddiol i ACLI ddefnyddio eiriolwyr ar gamau cynharach o'r broses baratoi. Gall gweithwyr proffesiynol sy'n gyfarwydd â chyflwyno achosion fod yn arbennig o ddefnyddiol wrth adolygu digonolrwydd a phriodoldeb y sylfaen dystiolaeth a threfnu'r dystiolaeth er mwyn cynorthwyo'r Arolygydd i archwilio'r materion cadernid.

### ***Clywed y cyfranogwyr***

- 6.19. Bydd yr Arolygydd yn rheoli'r gwrandawriad ac, yn arbennig, yn osgoi mynd o gwmpas y bwrdd yn gofyn i bob parti wneud sylwadau ar bob eitem. Bydd yr Arolygydd yn dechrau trwy wneud rhai sylwadau byr ar y materion sydd i dderbyn sylw, cyn gwahodd y cyfranogwyr i gyfrannu at y ddadl. Bydd y sesiwn yn mynd rhagddi dan arweiniad yr Arolygydd, a fydd yn cynnwys cyfranogwyr yn y drafodaeth yn y fath fodd sy'n ei alluogi i gael y wybodaeth sy'n angenrheidiol i ddod i gasgliad pendant ar y materion perthnasol. Lle y ceir nifer fawr o gyfranogwyr, mae profiad yn awgrymu y gall platiau enw siâp 'toblerone', y gellir eu rhoi i sefyll ar un pen pan fydd unigolyn yn dymuno siarad, fod yn ddefnyddiol. Pan fydd y drafodaeth wedi cyrraedd pwynt lle nad yw'n debygol y bydd mwy yn cael ei ddweud i gynorthwyo'r Arolygydd, bydd yn symud y drafodaeth ymlaen i'r mater nesaf.
- 6.20. Mae ymddangosiadau grŵp yn helpu i gynnal y pwyslais ar agenda'r Arolygydd yn hytrach na sylwadau unigol sy'n ceisio newid i'r CDLI. Mewn sesiwn sy'n ymwneud ag un mater (e.e. darpariaeth tir ar gyfer cyflogaeth), fe allai fod yn bosibl cynnwys cyfranogwyr sydd â safbwyntiau am gadernid cyffredinol y polisi a'r rhai hynny sydd â phryderon am safleoedd penodol.
- 6.21. Os yw'r Arolygydd yn dymuno mynd ar drywydd mater cadernid nas codwyd yn y sylwadau, mae'n bosibl y bydd angen trefnu sesiwn lle y gall holi'r ACLI. Er na fyddai unrhyw gyfranogwyr eraill yn bresennol, o bosibl, byddai'r sesiwn hon yn agored i'r cyhoedd. Yn ymarferol, byddai'n fwyaf priodol cysylltu sesiwn o'r fath â sesiwn arall lle mae materion neu bynciau eraill yn cael eu trafod.

### ***Nifer fawr o gyfranogwyr***

- 6.22. Os yw nifer fawr o bobl (mwy nag 20) yn dymuno cael eu clywed mewn sesiwn benodol, bydd yr Arolygydd yn ceisio lleihau'r nifer. Ni fydd Arolygwyr yn ceisio rheoli nifer ormodol o gyfranogwyr oherwydd fe allai fod yn anodd iddynt gyfeirio'r drafodaeth, arfer tegwch wrth glywed cyfranogwyr a chymryd nodiadau o'r gweithrediadau. Fel y cyfryw, mae angen bod yn bragmatig, ac felly bydd yr Arolygydd yn:
- Atgoffa'r rhai dan sylw y rhoddir yr un pwys i sylwadau ysgrifenedig â thystiolaeth lafar. Ar y sail hon, dylai unigolion a phartïon feddwl yn ofalus ynghylch a oes angen ymddangos;
  - Gofyn i'r rhai hynny sydd â safbwyntiau tebyg iawn benodi un llefarydd;



- Ystyried is-rannu'r mater sydd i'w drafod; a
- Chynnal mwy nag un sesiwn ar yr un pwnc. Gellid annog y cyfranogwyr y trefnwyd iddynt fynychu'r ail sesiwn arsylwi'r sesiwn gwrandawriad gyntaf er mwyn ymgyswngu â'r gweithdrefnau a'r fformat. Ni fydd angen i'r Arolygydd glywed dadleuon ddwywaith, ac felly fe allai rhai benderfynu peidio â mynd i'r sesiwn gwrandawriad ddiweddarach. Bydd y Swyddog Rhaglen wrth law i gynorthwyo i drafod hyn gyda'r cyfranogwyr.

6.23. Lle y ceir sesiynau dwys mawr, mae'n bosibl y bydd angen i Arolygwyr gael cymorth cofnodwr nodiadau, ac fe allai gael ei gynorthwyo gan Arolygydd Cynorthwyol neu swyddog cynllunio o'r Arolygiaeth. Bydd hyn yn hwyluso'r broses o wneud nodiadau, ond ni fydd bob amser yn bosibl ac ni ellir dibynnu arno. Os oes gan yr Arolygydd bryderon ynghylch cymryd nodiadau a bod angen cymorth arno, gall y Swyddog Rhaglen ofyn ar ei ran i'r ACLI ddynodi unigolyn addas o'r ACLI i gynorthwyo o flaen llaw. Diben nodiadau yw bod yn gymorth cof i'r Arolygydd, ac nid ydynt yn ddogfennau sy'n rhan o'r archwiliad.

### ***Newidiadau Materion sy'n codi/camau gweithredu y cytunwyd arnynt***

- 6.24. Ni ddylai ACLlau geisio gwneud newidiadau i CDLI ar ôl ei gyflwyno oherwydd dylai'r broses flaenlwytho fod wedi ystyried yr ystod lawn o ddewisiadau a dulliau polisi. Rhoddir cyfle i'r ACLI ymateb i sylwadau cyn yr adeg cyflwyno trwy'r newidiadau 'canolbwytiedig' y cytunwyd arnynt (gweler Pennod 2) .
- 6.25. Dylai newidiadau ar ôl cyflwyno gael eu hysgogi gan yr Arolygydd mewn ymateb i unrhyw bryderon ynglŷn â chadernid sy'n codi yn ystod yr archwiliad. Cyfeirir at yr rhain yn aml fel 'Newidiadau Materion sy'n codi'
- 6.26. Os bydd angen, ar ddiwedd pob sesiwn gwrandawriad, bydd yr Arolygydd yn cadarnhau gyda'r ACLI unrhyw gamau gweithredu mae angen iddo eu cymryd mewn ymateb i faterion o gadernid a godwyd yn ystod y drafodaeth (e.e. gwneud newidiadau penodol i bolisiau'r CDLI, neu i egluro materion mewn perthynas â'r sail dystiolaeth). Gellir cytuno rhestrau o 'pwyntiau gweithredu' gyda'r ACLI a'u cyhoeddi yn y Llyfrgell Archwilio. Yn ogystal, bydd yn ofynnol i'r ACLI gynnal atodiad o 'newidiadau materion sy'n codi' ôl-ddilydol y mae'n cynnig eu gwneud i'r CDLI a gyflwynwyd neu a ddiwygiwyd. Dylai'r atodiad hwn nodi rhif y dudalen, cyfeirnodau polisi/dyrannu a/neu'r paragraff y bwriedir ei ddiwygio; ac mae'n rhaid iddo nodi unrhyw beth sydd wedi'i ddileu neu ei ychwanegu trwy destun â llinell trwyddo neu destun mewn teip trwm.
- 6.27. Lle mae'r Arolygydd yn amlygu bod angen gwneud newidiadau penodol i'r cynllun, bydd y rhain, lle y bo'n bosibl, yn cael eu trafod yn llawn yn y gwrandawriadau. Fodd bynnag, fe all fod adegau lle mae Arolygydd yn dod i'r casgliad bod newid yn angenrheidiol ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd i'r archwiliad yn unig.

- 6.28. Mae hefyd yn bosibl y bydd problemau o bwys neu ddiffygion cronus yn cael eu hamlygu y mae'r Arolygydd o'r farn na ellir eu hunioni. Mewn sefyllfa o'r fath, mae'n debygol y deuir i'r casgliad nad yw'r CDLI a gyflwynwyd neu a ddiwygiwyd yn gadarn.
- 6.29. Os yw'r Arolygydd o'r farn y dylid newid y CDLI neu'r diwygiadau i'r cynllun (gan gynnwys unrhyw atodiad) ar ôl ei gyflwyno er mwyn gwneud y cynllun yn gadarn, a bod hyn yn bosibl, mae'n rhaid iddo fod yn fodlon bod y gofynion ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus ac arfarniad o gynaliadwyedd wedi'u cyflawni o ran y newidiadau. Pan fo'r Arolygydd o'r farn nad yw hyn wedi'i fodloni, bydd yn gofyn i'r ACLI gynnal yr ymgynghoriad angenrheidiol a gweithio ar arfarniad o gynaliadwyedd. Bydd yr Arolygydd yn disgwyl i'r deunydd fod ar gael heb achosi oedi gormodol i'r archwiliad. Rhoddir arweiniad ar yr amgylchiadau cyfyngedig lle y ceir gohirio archwiliad er mwyn caniatáu i'r ACLI wneud gwaith ychwanegol ym Mhennod 9.
- 6.30. Gallai'r broses hon gynhyrchu sylwadau newydd. Er tegwch, bydd yr Arolygydd yn ymestyn yr hawl i ymddangos yn y gwrandawiadau i'r rhai hynny sy'n ceisio diwygiad sy'n dilyn yn uniongyrchol o'r newidiadau ôl-gyflwyno arfaethedig.
- 6.31. Lle yr amlygir newidiadau sy'n ymwneud â diffygion o ran cyflwyniad neu wallau, bydd yr Arolygydd yn gofyn i'r ACLI gymryd cyfrifoldeb am wneud gwaith o natur olygyddol. Mae'n rhaid i newidiadau o'r fath beidio â chael effaith o bwys ar sylwedd na chadernid y cynllun a gyflwynwyd (gweler paragraff 2.7).

### ***Dod â'r sesiynau gwrandawriad a drefnwyd i ben***

- 6.32. Ar ddiwedd y sesiwn gwrandawriad olaf, bydd yr Arolygydd yn cyhoeddi dyddiad darparu'r adroddiad i'r ACLI ar gyfer 'gwirio ffeithiau'. Caiff y dyddiad ei gadarnhau yn ysgrifenedig i'r ACLI gan yr Arolygiaeth.
- 6.33. Gall problem ymarferol godi os caiff y Swyddog Rhaglen ei ryddhau o'i swydd ar ddiwedd y sesiynau gwrandawriad gan na fydd cyfrwng cyfathrebu uniongyrchol ar gael i'r Arolygydd. Mae'n rhaid i ACLLau gadw'r Swyddog Rhaglen yn ei swydd, ar sail ran-amser neu 'fel y bo'r angen' o leiaf, ar ôl y sesiynau gwrandawriad, hyd nes y darperir adroddiad gwirio ffeithiau'r Arolygydd. Os na fydd y Swyddog Rhaglen ar gael, mae'n rhaid i'r awdurdod sicrhau y bydd swyddog gweinyddol yn gallu ymdrin â gohebiaeth a darparu pwynt cyswllt. Mae'n rhaid rhoi gwybod i dîm cynlluniau datblygu'r Arolygiaeth yng Nghaerdydd os bydd unrhyw broblemau'n codi mewn perthynas â'r Swyddog Rhaglen.
- 6.34. Gallai'r Arolygydd gynnal sesiwn grynhoi fer ar ddiwedd diwrnod olaf y gwrandawriadau gyda'r ACLI a chynrychiolwyr eraill. Bydd hyn yn rhoi cyfle i'r partion drafod sut mae'r gwrandawriadau wedi cael eu trefnu a'u cynnal. Bydd yn gyfle i gyfnewid safbwyntiau a dysgu gwersi fel y gall yr Arolygiaeth wella'r broses archwilio i bawb dan sylw.

## ***Deunydd pellach a sesiynau gwrandawriad ychwanegol***

- 6.35. Gallai'r Arolygydd geisio eglurhad ysgrifenedig ychwanegol ar unrhyw faterion a phynciau a godwyd yn ystod y gwrandawiadau. Fodd bynnag, bydd Arolygwyr ond yn gofyn am wybodaeth ychwanegol sy'n hanfodol i'w galluogi i wneud penderfyniad ynghylch cademid; ni dderbynnir deunydd ac 'ymatebion' ar ôl y sesiwn gwrandawriad olaf nad oedd yr Arolygydd wedi gofyn amdanynt.
- 6.36. Gan y bydd yr archwiliad yn dal i fod ar agor tra bod yr Arolygydd yn ysgrifennu ei adroddiad, fe allai gynnal sesiynau ychwanegol yn ystod y cyfnod adrodd. Gwneir hyn os yw'n gwbl angenrheidiol yn unig e.e. lle nad yw mater sylfaenol yn ymwneud â chademid wedi'i ddatrys.

## **7. Ysgrifennu adroddiad**

### ***Egwyddorion allweddol ar gyfer adrodd***

- 7.1. Wrth lunio'r adroddiad, bydd yr Arolygydd yn canolbwyntio ar:
- ddod i gasgliadau eglur, a gefnogir gan farn resymegol, ynghlŷn â gofynion cydymffurfio â gofynion Deddf a Rheoliadau 2004 a chyflawni'r gofyniad cyfreithiol ynghylch cadernid; ac
  - amlinellu (lle y bo'n briodol) argymhellion rhwymol manwl gywir ynghylch unrhyw newidiadau i'r polisiau, testun ategol arall, a/neu'r Map Cynigion sy'n ofynnol i oresgyn unrhyw agwedd ar ddiffyg cadernid y gellir ei chywiro a amlygwyd gan yr Arolygydd.
- 7.2. Bydd yr Arolygydd yn dechrau ar y gysail y dylai'r adroddiad fod mor fyr â phosibl, gan sicrhau ei fod yn cynnwys rhesymau eglur i gyfiawnhau'r casgliadau. Gan nad yw'r Arolygydd yn ymdrin ag 'ymholiadau i wrthwynebiadau', ni fydd adroddiadau'n crynhoi achosion partïon unigol, byddant yn osgoi cyfeirio'n uniongyrchol at sylwadau penodol cyn belled ag y bo'n bosibl, ac ni fyddant yn disgrifio trafodaethau yn y sesiynau gwrandawriad. Bydd yr adroddiad yn esbonio'n eglur pam mae'r Arolygydd, ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth ac ar sail ei farn a'i arbenigedd proffesiynol, wedi dod i gasgliad penodol ynghlŷn â sut mae'r cynllun yn bodloni'r gofynion statudol ar gyfer ei baratoi a'r profion cadernid.

### ***Strwythur yr adroddiad***

- 7.3. Rhennir yr adroddiad yn adrannau allweddol fel a ganlyn:
- Cyflwyniad – sy'n amlinellu diben yr archwiliad; sylwadau byr ar yr archwiliad a gynhaliwyd ac esboniad cryno o strwythur yr adroddiad. Bydd y cyflwyniad hefyd yn rhoi casgliad cyffredinol sy'n crynhoi canlyniad yr archwiliad.
  - Gofynion gweithdrefnol – crynhoi'r broses paratoi cynllun ac a yw wedi bodloni gofynion Deddf a Rheoliadau 2004.
  - Penodau sy'n seiliedig ar destunau sy'n nodi'r prif bynciau, gan amlinellu rhesymau a chasgliadau'r Arolygydd.
  - Casgliad Cyffredinol – pa un a yw'r Cynllun (naill ai fel y'i cyflwynwyd neu fel y'i addaswyd gan ddiwygiadau i'r cynllun) yn gadarn gyda newidiadau neu heb fod yn gadarn yn sylfaenol ac ni ellir ei newid gan yr Arolygydd.
- 7.4. Os canfyddir nad yw'r cynllun yn gadarn, is-rennir yr adran prif bynciau er mwyn (a) ymdrin â'r holl faterion a arweiniodd at ddod i'r casgliad nad yw'r cynllun yn gadarn ac na ellir eu goresgyn gan yr Arolygydd, a (b) ymdrin â materion eraill a fu'n ddadleuol yn yr archwiliad ond nad oeddent yn effeithio ar gadernid y cynllun neu y gellid eu hunioni.
- 7.5. Lle y cyflwynwyd atodiad 'newidiadau canolbwyntiedig', bydd yr Arolygydd yn egluro ei statws yn gynnar yn yr adroddiad. Lle mae'r atodiad wedi'i

dderbyn yn rhan o'r CDLI a gyflwynwyd neu ddiwygiadau i'r cynllun, bydd yr Arolygydd yn argymhell y dylai (ar ôl ei ddiwygio yn unol ag argymhellion rhwymol, os oes angen) gael ei gynnwys yn y CDLI cyn ei fabwysiadu.

- 7.6. Darperir rhestr termau weithiau. Nid oes angen atodiadau eraill, er enghraifft rhestru'r prawf cadernid, cyfranogwyr neu ddogfennau craidd. Dylai'r math hwn o ddeunydd, os cafodd ei baratoi, gael ei gadw gan yr ACLI yn Llyfrgell yr Archwiliad.

### ***Newidiadau a argymhellir gan yr Arolygydd***

- 7.7. Os canfyddir bod CDLI yn gadarn yn amodol ar newidiadau, bydd adroddiad yr Arolygydd yn nodi argymhellion rhwymol. Gallai argymhellion gynnwys ail-lunio testun, dileu polisi neu ddarn o destun (neu gynnwys un newydd), neu newidiadau i'r Map Cynigion, cyn belled ag y byddai'r hyn sydd ar ôl yn cynrychioli cynllun cadarn o'i ddarllen fel cyfanwaith. Mae argymhellion yr Arolygydd yn rhwymol ac mae'n rhaid i'r ACLI fabwysiadu'r CDLI fel yr argymhellwyd y dylid ei newid gan yr Arolygydd oni bai bod Llywodraeth Cymru yn ei gyfarwyddo i beidio â gwneud hynny.
- 7.8. Bydd yr Arolygydd yn ystyried i ba raddau y mae unrhyw 'Newidiadau Materion yn Codi' (MAC) a gynigir gan yr ACLI yn angenrheidiol er mwyn mynd i'r afael â materion o gadernid a godwyd yn ystod yr archwiliad. Os bydd yr Arolygydd yn dod i'r casgliad bod pob MAC yn angenrheidiol er mwyn canfod bod y cynllun yn gadarn, mae'n bosibl y caiff y rhestr MAC ei hatodi i'r adroddiad. Os bydd yr Arolygydd yn dod i'r casgliad bod angen newidiadau ychwanegol er mwyn sicrhau cadernid, caiff y rhain eu nodi mewn atodiad ar wahân o 'Newidiadau'r Arolygydd' cymeradwy (IC). Caiff unrhyw newidiadau i'r CDLI a bennwyd gan yr Arolygydd er mwyn ei wneud yn gadarn (boed yn MACau neu'n ICau) eu nodi yn yr adroddiad. Gan fod yr argymhellion yn rhwymol, mae'n nodi union eiriad unrhyw newid yn yr atodiadau i'r adroddiad.
- 7.9. Gellir gwneud newidiadau rhwymol o'r fath dim ond os yw'r Arolygydd yn hyderus eu bod wedi'u seilio ar dystiolaeth ac na fyddai'r CDLI wedi'i newid yn agored i'w herio am y rheswm na ddilynwyd y gweithdrefnau priodol. Bydd angen i'r Arolygydd farnu'n ofalus gan ystyried amgylchiadau'r achos o ran a yw'n bosibl bod unrhyw MACs neu ICs arfaethedig yn gofyn am ymgynghoriad cyhoeddus, Gwerthusiad Cynaliadwyedd neu Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd.
- 7.10. Mae'n bwysig cofio na fydd yr Arolygydd yn ceisio gwella cynllun y mae'n ystyried ei fod yn gadarn. Fodd bynnag, bydd Arolygwyr yn ystyried newidiadau a gynlluniwyd i greu CDLI sy'n briodol ac yn bosibl ei gyflawni. Mewn llawer o achosion, gwneir sylwadau ynglŷn â materion nad ydynt yn effeithio ar gadernid y cynllun. Ni fydd yr Arolygydd yn gwneud argymhellion ynglŷn â'r materion hyn, hyd yn oed os yw'n ystyried bod sail gadarn i'r sylw. Cynllun yr ACLI ydyw, a bydd yr Arolygydd ond yn gwneud newidiadau sy'n sicrhau bod y CDLI yn gadarn. O ran pob newid, bydd Arolygwyr yn

gofyn i'w hunain a fyddai'r cynllun yn peidio â bod yn gadarn os na fyddai'n cael ei wneud. Os 'Na fyddai' yw'r ateb, ni fydd unrhyw newid yn cael ei argymhell.

- 7.11. O ganlyniad, ni chyfeirir at unrhyw newidiadau golygu bach a gynigir gan yr ACLI nad ydynt yn effeithio ar gadernid y cynllun yn adroddiad yr Arolygydd Fodd bynnag, mae'n bosib y bydd adroddiadau Arolygwyr yn caniatáu i ACLlau wneud newidiadau canlyniadol i CDLI er mwyn dileu unrhyw anghysondebau yn dilyn newidiadau argymelledig Arolygwyr.

### ***CDLlau nad ydynt yn gadarn***

- 7.12. Os deuir i'r casgliad ar ddiwedd y broses archwilio nad yw cynllun yn gadarn, bydd hynny'n arwain at oblygiadau pwysig o ran adnoddau, yn nhermau'r amser a dreuliwyd gan yr Arolygydd a'r buddsoddiad o ran amser ac ymrwymiad gan yr ACLI a rhanddeiliaid eraill. Mae'r Arolygiaeth yn gwneud popeth o fewn ei gallu i sicrhau bod problemau sylfaenol yn cael eu hamlygu'n gynnar. Diben y gwaith cwmpasu cynnar, defnyddio cyfarfod archwiliadol a gohirio (mewn amgylchiadau eithriadol) yw lleihau'r tebygolrwydd y bydd hynny'n digwydd. Mae sefyllfa o'r fath yn llawer llai tebygol o ddigwydd os yw'r ACLI wedi dilyn canllawiau arfer da a gweithdrefnau ymgynghori blaenlwytho, ac wedi ymateb yn briodol ac yn gyfrifol i bryderon a godwyd gan yr Arolygydd mewn cyfarfod archwiliadol.

## **8. Darparu adroddiad i'r ACLI**

### ***Yr adroddiad gwirio ffeithiau***

- 8.1. Bydd yr adroddiad gwirio ffeithiau'n cael ei anfon i'r ACLI ar ffurf electronig a phapur, ynghyd â llythyr eglurhaol ar wahân at ei Brif Weithredwr. Bydd hyn yn adrodd yn fyr bod y cyfarfod cyn gwrandawriad a'r sesiynau gwrandawriad wedi'u cynnal (ar ddyddiadau a bennwyd) a bod gofynion archwiliad o dan A64(5) Deddf 2004 wedi'u cyflawni. Rhoddir y casgliadau cyffredinol ynglŷn â chadernid.
- 8.2. Anfonir copi o'r adroddiad i Lywodraeth Cymru. Mae Adrannau 65 a 67(4) Deddf 2004 yn darparu y caiff Llywodraeth Cymru ystyried ymyrryd trwy 'gyfarwyddyd' cyn mabwysiadu lle yr ystyrir bod argymhellion yr adroddiad rhwymol yn gwrthdaro â'r polisi cenedlaethol. Bydd unrhyw faterion a godir gan Lywodraeth Cymru ar gael i'r cyhoedd.
- 8.3. Ni chaiff ACLlau godi amheuon ynglŷn â chasgliadau'r Arolygydd, ond cânt geisio eglurhad ynglŷn ag unrhyw gasgliadau yr ystyrir eu bod yn aneglur. Dylai ACLlau gwblhau'r ymateb i'r adroddiad gwirio ffeithiau o fewn 2 wythnos o'i dderbyn (neu 1 wythnos ar gyfer adroddiadau byrrach sy'n perthyn i ddiwygiadau rhannol i'r cynllun).
- 8.4. Er yr ystyrir mai'r adroddiad gwirio ffeithiau yw'r adroddiad terfynol i bob pwrpas, ni ddylai ACLlau ei gyhoeddi hyd nes bod y broses gwirio ffeithiau wedi'i chwblhau a'r adroddiad terfynol yn cael ei gyhoeddi gan yr Arolygiaeth.

### ***Yr adroddiad terfynol***

- 8.5. Pan fydd y broses gwirio ffeithiau wedi'i chwblhau a'r Arolygydd wedi ymateb i unrhyw bwyntiau a godwyd, bydd yr adroddiad terfynol yn cael ei gyflwyno i'r awdurdod ar ffurf electronig a phapur.
- 8.6. Ni fydd yr Arolygiaeth yn cyhoeddi'r adroddiad; fe'i cynhyrchir ar gyfer yr ACLI a'r awdurdod sy'n gyfrifol am ei gyhoeddi. Yn yr un modd, ni fydd yr Arolygiaeth yn rhoi gwybod am ganlyniad archwiliad CDLI a gwblhawyd hyd nes y bydd yr ACLI yn sicrhau bod y wybodaeth honno ar gael yn gyhoeddus.
- 8.7. O dan Gynllun Iaith Gymraeg yr Arolygiaeth Gynllunio, bydd adroddiadau'n cael eu cyfieithu i'r Gymraeg cyn cael eu cyflwyno i gynghorau Gwynedd ac Ynys Môn ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Yr adroddiad diffiniol fydd yr adroddiad gwreiddiol fel y'i hysgrifennwyd gan yr Arolygydd, cyn cael ei gyfieithu.

- 8.8. Anfonebir ACLlau ar gyfer yr archwiliad yn unol â'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth<sup>8</sup> y cytunwyd arno rhwng yr Arolygiaeth a'r ACLI. Bwriedir anfonebu awdurdodau'n fisol, ond mae'r Arolygiaeth yn fodlon trafod hyn gydag awdurdodau unigol wrth gytuno ar y Cytundeb Lefel Gwasanaeth. Amlinellir y drefn codi tâl bresennol yn [Rheoliadau Ymchwiliadau Lleol, Ymchwiliadau Cymwys a Gweithdrefnau Cymwys \(Swm Dyddiol Safonol\) \(Cymru\)](#).

---

<sup>8</sup> Mae'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth yn ymdrin â'r trefniadau rhwng yr Arolygiaeth a'r ACLI ar gyfer archwilio a darparu adroddiad rhwymol yr Arolygydd.



## **9. Gweithdrefnau Eithriadol**

### **Cyfarfodydd Archwiliol**

- 9.1. Bydd yr angen am gyfarfod archwiliadol yn codi fel arfer oherwydd pryderon o bwys am y materion a'r pynciau allweddol a amlygwyd yn narlleniad cychwynnol yr Arolygydd o'r CDLI neu unrhyw ddiwygiadau arfaethedig i'r cynllun. Bydd Arolygwyr yn galw cyfarfodydd archwiliadol dim ond os oes ganddynt bryderon difrifol. Felly, dylai ACLI drin cyfarfodydd archwiliadol mewn ffordd wahanol iawn i'r Cyfarfod Cyn Gwrandawriad, a gynhelir fel mater o drefn.
- 9.2. Er mai diben cyfarfod archwiliadol CDLI yw cynorthwyo i gynnal yr archwiliad yn gyffredinol (yn hytrach nag i'r Arolygydd ddod i gasgliadau terfynol am gadernid y cynllun), ceir rhywfaint o le i edrych ar gynnwys y CDLI a gyflwynwyd neu a ddiwygiwyd, megis ystyried pa dystiolaeth ychwanegol sydd ei hangen ac y gellir ei darparu mewn amser rhesymol ar fater penodol a godwyd yn y sylwadau.
- 9.3. Gan fod y cyfarfod archwiliadol yn ddull cynnar i archwilio pryderon, ni fyddai Arolygydd yn cynnal un fel arfer ar ôl i'r sesiynau gwrandawriad ddechrau. Pe byddai pryderon difrifol yn dod i'r amlwg yn ystod sesiynau gwrandawriad, byddai'r Arolygydd yn trefnu sesiwn gwrandawriad ychwanegol i adolygu cynnydd a thrafod unrhyw bryderon. Gallai sesiwn gwrandawriad ychwanegol gael ei chynnal hefyd os yw'r Arolygydd, wrth adolygu ei gasgliadau ar ôl y sesiynau gwrandawriad, yn amlygu mater(ion) sy'n effeithio ar gadernid y mae angen ymchwilio ymhellach iddo/iddynt.

### ***Dull a diben y cyfarfod archwiliadol***

- 9.4. Sail y cyfarfod fydd y ffaith bod yr Arolygydd wedi amlygu rhai pryderon allweddol am y CDLI a gyflwynwyd neu a ddiwygiwyd yn ei ystyriaeth gynnar y mae angen eu trafod. Bydd yr Arolygydd yn esbonio pam y galwyd y cyfarfod archwiliadol a sut y bydd yn ystyried y wybodaeth a geir yn y cyfarfod. Y gynsail i'r cyfarfod fydd y ffaith bod gan yr Arolygydd rai pryderon am faterion penodol, ond ni fydd wedi penderfynu nad yw'r cynllun yn gadarn ar yr adeg hon. Bydd yn ceisio eglurhad ynghylch materion a phynciau penodol er mwyn llywio'r ffordd ymlaen yn yr archwiliad. Os na ddatrysir y pryderon, gallai fod angen i'r Arolygydd hysbysu'r partïon ei fod yn aneglur ynglŷn â sut y gellir unioni'r materion a'r pynciau (gweler paragraff 9.13).

### ***Cyfranogwyr, Rhybudd ac Amseriad***

- 9.5. Dylai cyfarfod archwiliadol gynnwys yr ACLI a Llywodraeth Cymru. Gallai'r Arolygydd hefyd wahodd unrhyw rai a gyflwynodd sylwadau sydd wedi gwneud pwyntiau pwysig am y materion a'r pynciau sy'n achosi pryder. Mae'n rhaid i gyfarfodydd archwiliadol fod yn gyfarfodydd cyhoeddus, ac felly

caiff unrhyw unigolyn fynychu ac arsylwi. Bydd Arolygwyr yn sicrhau nad yw'r cyfarfod archwiliadol yn dod yn archwiliad o'r CDLI lle mae dau barti yn unig, sef yr ACLI a Llywodraeth Cymru, wedi cael cyfle i wneud sylwadau. Bydd cwestiynau ynglŷn â thegwch yn codi os nad oes unrhyw barti arall wedi cael cyfle ffurfiol i wneud sylwadau.

- 9.6. Trefnir y cyfarfod gan y Swyddog Rhaglen a rhoddir cyhoedduswydd amdano gan yr ACLI. Dylai hyn gael ei wneud mewn modd sy'n gyson ag unrhyw ymrwymiad yng Nghynllun Cynnwys y Gymuned yr ACLI. Os yw'n bosibl, dylid rhoi o leiaf 4 wythnos o rybudd. Argymhellir hefyd y dylai'r ACLI osod hysbyseb ar eu gwefan i roi gwybod am y cyfarfod cyn gynted â phosibl.
- 9.7. Bydd y llythyr gwahoddiad yn pwysleisio na fydd tystiolaeth ffurfiol yn cael ei chlywed ac y bydd yr Arolygydd yn penderfynu sut i symud ymlaen â'r archwiliad ar ôl y cyfarfod hwnnw.

### ***Rôl yr Arolygydd***

- 9.8. Bydd yr Arolygydd yn llunio agenda/rhestr o gwestiynau i'w hanfon o flaen llaw i amlygu'r prif bwyntiau trafod.
- 9.9. Ni fydd tystiolaeth yn cael ei rhoi ar brawf mewn cyfarfod archwiliadol (rhoddir prawf ar dystiolaeth mewn sesiynau gwrandawriad yn unig), ond bydd yr Arolygydd yn lleisio pryderon am sylfaen dystiolaeth anghyflawn neu annigonol. Gallai'r Arolygydd ddefnyddio'r cyfarfod i archwilio gyda'r partion pa ddeunydd arall sydd ei angen i hysbysu'r archwiliad yn briodol, a'r amserlen ar gyfer darparu'r deunydd hwnnw.
- 9.10. Mae'n rhoi cyfle i ymdrin â materion megis egluro:
- sylwadau a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru; a
  - maint/natur y dystiolaeth y mae'r ACLI wedi'i chyflwyno i'r archwiliad.
- 9.11. Gall hwn fod yn brofiad anodd i bawb sy'n gysylltiedig, yn enwedig yr ACLI, a fydd wedi ymroi llawer o amser i baratoi'r cynllun. Bydd yr Arolygydd yn arwain y cyfarfod ac yn sicrhau ei fod yn cyfleu ei bryderon yn eglur ac mewn modd sensitif.
- 9.12. Mae'n bwysig bod adroddiad ar y drafodaeth yn cael ei roi yn y Cyfarfod Cyn Gwrandawriad neu sesiwn gwrandawriad ddilynol, gan dybio y bydd yr archwiliad yn symud ymlaen. Cynhelir pob cyfarfod archwiliadol yn gyhoeddus, a bydd cofnod o'r cyfarfod yn cael ei gytuno gyda phawb a gymerodd ran ynddo. Bydd y papurau sy'n ymwneud â'r cyfarfod archwiliadol ar gael yn Llyfrgell yr Archwiliad. Dylai'r rhain gynnwys unrhyw bapurau ynglŷn â phynciau a luniwyd gan bartion yn y cyfarfod yn dilyn cais yr Arolygydd.

## **Canlyniadau posibl y cyfarfod**

### 9.13. Canlyniadau posibl y cyfarfod:

- (i) Mae'r Arolygydd yn argymhell bod y CDLI yn cael ei dynnu'n ôl ac nid yw'r argymhelliad hwnnw'n cael ei wrthod gan Lywodraeth Cymru.
- (ii) Mae'r materion yn cael eu datrys er bodlonrwydd yr Arolygydd ac mae'r archwiliad yn symud ymlaen i'r Cyfarfod Cyn Gwrandawriad neu, os cynhaliwyd y cyfarfod ar ôl y Cyfarfod Cyn Gwrandawriad, i'r sesiynau gwrandawriad. Rhoddir adroddiad ar y cyfarfod yn y Cyfarfod Cyn Gwrandawriad neu'r sesiwn gwrandawriad gyntaf a drefnwyd.
- (iii) Gohirio dros dro – gallai'r Arolygydd gytuno i ohirio'r archwiliad am gyfnod byr er mwyn i'r ACLI wneud mwy o waith (ymdrinnir yn fanwl â gohirio ym mharagraffau 9.15-20). Gallai hyn olygu aildrefnu'r sesiynau gwrandawriad.
- (iv) Mae'r Arolygydd yn dal i fod yn bryderus ac mae'r materion yn dal heb dderbyn sylw gan yr ACLI – bydd yr Arolygydd yn symud ymlaen i'r Cyfarfod Cyn Gwrandawriad neu'r sesiwn gwrandawriad ddilynol, ac yn rhoi adroddiad ar y cyfarfod archwiliadol. Os yw pryderon yr Arolygydd yn parhau, bydd yn datgan hynny yn y Cyfarfod Cyn Gwrandawriad neu'r sesiwn gwrandawriad ddilynol, ac fe allai drefnu sesiwn gwrandawriad i ymdrin â'r mater(ion) allweddol sy'n achosi pryder yn gyntaf. Bydd y sesiwn gwrandawriad yn rhoi cyfle i gyflwyno sylwadau ar ba un a yw'r ACLI a chyfranogwyr yn cytuno â'r Arolygydd, a sut y dylai'r archwiliad gael ei symud ymlaen. Bydd yr Arolygydd yn penderfynu, yn seiliedig ar y sylwadau a wnaed yn y sesiwn gwrandawriad, pa un ai parhau â'r archwiliad neu bennu nad yw'r CDLI a gyflwynwyd neu a ddiwygiwyd yn gadarn ar sail pwynt sylfaenol bwysig ac argymell ei dynnu'n ôl yn ffurfiol.

9.14. Mae cyfarfod archwiliadol yn elfen heb ei threfnu o'r amserlen ddangosol ar gyfer archwiliad. Pan gynhelir cyfarfod o'r fath, bydd angen i ACLlau a chyfranogwyr eraill sylweddoli y bydd yn debygol o achosi oedi yn rhaglen yr archwiliad. Bydd y graddau y mae'r cyfarfod archwiliadol yn amharu ar raglen yr archwiliad yn dibynnu ar ganlyniad y cyfarfod. Os datrysir y materion, ni ddylai'r oedi fod yn fwy nag ychydig wythnosau. Fodd bynnag, pan fydd Arolygydd yn cytuno ar ohirio dros dro, gallai hyn bara am sawl mis. Ond mae unrhyw oedi y tu hwnt i 6 mis yn awgrymu mai tynnu'n ôl yw'r ffordd briodol o weithredu, a dychwelyd i'r cam cyn adneuo pan fydd y problemau wedi'u datrys.

## **Gohirio**

9.15. Fe allai fod yn bosibl i'r Arolygydd oedi'r gweithrediadau pan fydd angen gwneud newid mawr a gohirio'r archwiliad er mwyn caniatáu i'r mater dderbyn sylw, ond ni ddylai'r oedi hwn fod yn afresymol. Os oes angen gwneud llawer iawn o waith/ymgyngori ychwanegol, mae hyn yn awgrymu bod y broses flaenlwytho wedi methu. Mewn amgylchiadau o'r fath, mae'n annhebygol y gellir dod i'r casgliad bod y CDLI yn gadarn ac fe allai'r

Arolygydd argymell y dylai'r CDLI neu ddiwygiadau i'r cynllun gael eu tynnu'n ôl.

- 9.16. Yn gyffredinol, mae gohirio'n mynd yn groes i'r amcan polisi ehangach o gyflymu proses y cynllun a datblygu tystiolaeth i hysbysu dewisiadau a wnaed yn ystod y broses o lunio'r cynllun. Gallai ACLlau geisio dadlau y gallai gohirio archwiliad fod yn fodd cyflymach o gyflawni nodau'r system newydd ar gyfer llunio cynlluniau. Fodd bynnag, safbwynt tymor byr yw hwn. Mae'n bwysig bod ACLlau yn cyflwyno CDLlau cadarn, a ategir gan sylfaen dystiolaeth gynhwysfawr, gyfredol a chadarn. Dyna'r unig ffordd y gellir cyflymu'r broses archwilio.
- 9.17. Mewn rhai amgylchiadau, fe allai fod yn effeithiol atal y broses archwilio dros dro er mwyn galluogi'r ACLI i wneud mwy o waith, heb orfod mynd yn ôl i ddechrau'r broses paratoi'r cynllun.
- 9.18. Gall cais am ohirio godi mewn sawl ffordd, gan gynnwys:
- cynnal cyfarfod archwiliadol cynnar gan yr Arolygydd a benodwyd (efallai ar sail sylwadau, yn enwedig rhai gan Lywodraeth Cymru);
  - pryderon am y materion a'r pynciau a amlygwyd gan yr Arolygydd yn y Cyfarfod Cyn Gwrandawriad; neu
  - gais gan yr Arolygydd i waith ychwanegol gael ei wneud neu wybodaeth gael ei darparu o ganlyniad i dystiolaeth a gyflwynir trwy'r sesiynau gwrandawriad.
- 9.19. Wrth bwysu a mesur addasrwydd gohirio'r archwiliad, bydd yr Arolygydd yn ystyried y cwestiynau canlynol:

**(i) Beth yw maint a natur y gwaith sy'n ofynnol i oresgyn diffyg canfyddedig y cynllun?**

Ai:

- a. atgyfnerthu neu gryfhau tystiolaeth bresennol;
- b. sicrhau bod ymgynghoriad priodol wedi'i gynnal a fyddai'n unioni diffyg cadernid posibl o ran gweithdrefnau; neu
- c. gomisiynu tystiolaeth newydd, sy'n codi mater ynglŷn â'r sail y paratowyd y cynllun ami?

Byddai pwynt (c) yn awgrymu nad yw'r sylfaen dystiolaethol ar gyfer y cynllun yn gadarn, ac mae'n bosibl y gallai comisiynu tystiolaeth newydd arwain at newidiadau mawr i'r CDLI a gyflwynwyd neu a ddiwygiwyd. Fodd bynnag, gallai (a) a (b) awgrymu y gallai gwaith ychwanegol neu ymarfer ymgynghori alluogi'r Arolygydd i symud ymlaen heb oedi gormodol.

**(ii) Pa mor hir y bydd yn ei gymryd i wneud y gwaith?**

Mae'n bosibl y byddai gohirio am hyd at 6 mis yn dderbyniol, ond nid am gyfnod hwy na hynny. Byddai oedi o fwy na 6 mis yn creu ansicrwydd yn y

broses archwilio i'r rhai a gyflwynodd sylwadau ar y cam adneuo ac yn awgrymu'n gryf nad yw'r CDLI neu'r diwygiadau i'r cynllun wedi'u blaenlwytho'n ddigonol. Yn yr achos hwnnw, dylai gael ei dynnu'n ôl er mwyn caniatáu ar gyfer dilyn y gweithdrefnau priodol ar gyfer fersiwn ddiwygiedig o'r cynllun.

### **(iii) Beth fydd y gwaith ychwanegol yn arwain ato?**

Os yw'n arwain at CDLI sy'n sylweddol wahanol o gymharu â hwnnw a gyflwynwyd, bydd hyn yn codi cwestiwn ynglŷn â'r hyn y mae'r Arolygydd yn ei archwilio, ac felly byddai gohirio'n ymddangos yn amhriodol. Fodd bynnag, os yw'n darparu tystiolaeth gryfach nad yw'n arwain at newidiadau mawr, nid fydd yn debygol o arwain at oedi sylweddol.

- 9.20. Bydd angen i'r Arolygydd ystyried materion penodol pan fydd yr archwiliad yn ailgychwyn ar ôl iddo gael ei ohirio:
- Os yw ACLI yn cynnig newidiadau newydd i'r CDLI, mae'n bosibl y bydd angen iddo gynnal cyfnod ymgynghori arall fel bod unigolion â buddiant yn cael cyfle i wneud sylwadau ar y newidiadau;
  - Os yw'r newid newydd arfaethedig yn sylweddol ac yn treiddio i graidd y CDLI, neu os yw graddau newid cronus yn sylweddol, bydd angen i'r Arolygydd ystyried a fydd yr archwiliad yn gallu parhau;
  - Mae'n bosibl y bydd angen cynnal arfarniad arall o gynaliadwyedd er mwyn sicrhau y cydymffurfir â gofynion asesiad amgylcheddol strategol; ac
  - Os cynhelir arfarniad arall o gynaliadwyedd, bydd angen ymgynghori arno er mwyn cydymffurfio â Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol Strategol.

## **Tynnu'n ôl**

- 9.21. O dan adran 66 Deddf Cynllunio a Phryniant Gorfodol 2004, ar ôl ei gyflwyno, gellir tynnu CDLI yn ôl dim ond a) os yw Arolygydd yn argymhell y dylid ei dynnu'n ôl ac nid yw Llywodraeth Cymru yn gwrthod yr argymhelliad hwnnw, neu b) os yw Llywodraeth Cymru yn cyfarwyddo bod CDLI yn cael ei dynnu'n ôl.

## **Seminarau Technegol**

- 9.22. Os yw archwiliad o CDLI wedi'i seilio ar ystyriaethau technegol, gallai'r Arolygydd geisio cynnal seminar dechnegol lle y gellir esbonio'r fethodoleg a sail y dystiolaeth a gyflwynir. Ni fydd y seminar yn rhoi prawf ar y dystiolaeth. Yn hytrach, fe'i cynhelir er mwyn sicrhau bod yr holl bartion yn deall y sail dechnegol ar gyfer y dystiolaeth. Y bwriad yw arbed amser yn ystod y sesiynau gwrandawriad a rhoi dealltwriaeth eglur i'r holl bartion o'r fethodoleg a ddefnyddiwyd. Yna, os oes angen, gall materion fel priodoldeb y fethodoleg gael eu harchwilio'n wybodus yn y sesiynau gwrandawriad.

- 9.23. Os oes angen cynnal sesiwn dechnegol, gofynnir i'r partïon a gyflwynodd y dystiolaeth dechnegol baratoi deunydd esboniadol a fydd yn cael ei ddsbarthu i'r partïon eraill a wahoddwyd i fynychu'r sesiynau gwrandawriad lle y bwriedir ystyried y deunydd hwnnw. Gall y partïon hyn ac unrhyw un arall sydd â diddordeb fynychu'r sesiwn dechnegol, ond ni ddefnyddir y sesiwn i brofi'r fethodoleg, y tybiaethau a ddefnyddiwyd na'r casgliadau y daethpwyd iddynt, gan fod y rhain yn faterion a ddylai gael eu hystyried yn y sesiynau gwrandawriad arferol. Dylai'r gweithdrefnau hysbysu ar gyfer sesiynau technegol fod yr un fath ag ar gyfer cyfarfodydd archwiliadol.

## **Atodiad – Gofynion Gweithdrefnol a’r profion cadernid: cwestiynau allweddol a thystiolaeth**

Mae Adran 64(5) y Ddeddf Cynllunio a Phryniant Gorfodol yn nodi dau ddiben archwiliad annibynnol. Y cyntaf yw sicrhau y cafodd y CDLI neu ddiwygiadau i’r cynllun eu paratoi yn unol â **gofynion gweithdrefnol**; yr ail yw penderfynu a yw’r cynllun yn **‘gadarn’**.

### ***Gofynion gweithdrefnol***

Er mwyn sicrhau na threulir amser yn archwilio’n fanwl cynllun y mae’n gwbl amlwg nad yw’n gadarn yn weithdrefnol, bydd yr Arolygiaeth yn sgrinio pob CDLI a gyflwynir (neu ddiwygiadau arfaethedig i’r cynllun) ar gam cynnar er mwyn sicrhau:

- Mae wedi’i baratoi yn unol â’r Cytundeb Darparu, gan gynnwys y Cynllun Cynnwys y Gymuned.
- Mae’r cynllun a’i bolisiau wedi bod yn destun arfarniad o gynaliadwyedd, gan gynnwys asesiad amgylcheddol strategol.
- Mae Asesiad Priodol wedi’i gynnal o dan Reoliadau Cynefinoedd 1994.

Mae’n rhaid i’r ACLI gyflwyno Adroddiad Ymgynghori, Adroddiad Gwerthuso Cynaliadwyedd ac Adroddiad Asesu Rheoliadau Cynefinoedd er mwyn dangos ei fod wedi cydymffurfio â gofynion gweithdrefnol (i gael rhagor o wybodaeth, gweler ‘Preparing for submission: guidance for Local Planning Authorities’).

### ***Profion cadernid***

Mae Adran 8.2.1.2 y [Llawlyfr CDLI \(2015\)](#) yn cynnwys tri ‘phrawf cadernid’ sy’n tanategu archwiliadau CDLI, ac yn nodi cwestiynau allweddol mewn perthynas â phob prawf. Nodir awgrymiadau o ofynion tystiolaeth mewn perthynas â phob prawf cadernid isod.

### ***Prawf 1: A yw’r cynllun yn gweddu? (h.y. a yw’n glir bod y CDLI yn gyson â chynlluniau eraill?)***

Gallai ystod o ddogfennau fod yn berthnasol, yn enwedig dogfennau polisi â goblygiadau defnydd tir a gynhyrchwyd gan sefydliadau eraill. Ni fyddai’n briodol i’r CDLI restru’r holl strategaethau a dogfennau a ystyriwyd wrth ei baratoi. Gall y rhain fod yn rhan o bapur cefndir/testun a ddefnyddir gan yr ACLI i ddangos bod y prawf cadernid hwn wedi’i fodloni.

Dylai’r ACLI:

- Esbonio sut mae unrhyw bolisiau strategol a dyraniadau yn gyson â’r polisi cenedlaethol, Cynllun Gorfodol Cymru, nodau o ran lles a Chynllun Morol Cenedlaethol Cymru.
- Osgoi ailadrodd polisiau rheoli datblygiad cenedlaethol yn wastraffus/diangen, gan esbonio a chyfiawnhau pam mae polisiau rheoli datblygiad lleol yn ofynnol
- Esbonio sut mae’r cynllun yn rhoi ystyriaeth ddigonol i ofynion sefydliadau eraill, fel rhai cyrff trafndiaeth, cwmnïau cyfleustodau ac asiantaethau sy’n darparu gwasanaethau yn yr ardal, gan gynnwys eu cynlluniau ar gyfer y dyfodol ac unrhyw ofyniad ar gyfer tir a safleoedd.

- Esbonio sut mae'r cynllun yn perthyn i'r Cynllun Integredig Sengl neu'r Cynllun Rheoli Parciau Cenedlaethol, trwy nodi polisiau a chynigion sy'n cyflawni elfennau allweddol o'r strategaeth honno, sy'n perthyn i ddefnyddio a datblygu tir
- Dangos sut mae'r cynllun yn gyson â rhai'r ACLlau cyfagos.

Bydd sylwadau gan gyrff sydd o'r farn bod y CDLI yn rhoi ystyriaeth ddigonol i strategaethau perthnasol eraill y maent hwy'n gyfrifol amdanynt, neu sydd o'r farn nad yw'n rhoi ystyriaeth ddigonol iddynt, yn arwyddocaol. Mae'n rhaid i'r adroddiad arfarniad o gynaliadwyedd ac asesiad amgylcheddol strategol gyfiawnhau gwyr o'r polisi cenedlaethol. Bydd Arolygwyr, yn seiliedig ar y dystiolaeth berthnasol, yn pennu'r pwysigrwydd y dylid ei roi i sylwadau gan gyrff sy'n gyfrifol am strategaethau perthnasol eraill a ystyriwyd yn y CDLI.

## ***Prawf 2: A yw'r cynllun yn briodol? (h.y. a yw'r cynllun yn briodol ar gyfer yr ardal yng ngoleuni'r dystiolaeth?)***

Er mwyn asesu'r prawf hwn, bydd angen darparu ystod o dystiolaeth sy'n benodol i'r ardal leol. Dylai'r dystiolaeth ategu strategaeth a pholisiau'r cynllun yn eglur. Mae'n rhaid i'r dystiolaeth leol fod yn gymesur, yn gadarn ac yn gredadwy, ac wedi'i pharatoi yn unol â'r polisi cynllunio cenedlaethol a chanllawiau arfer da.

Mae'r Adroddiad Gwerthusiad Cynaliadwyedd yn rhan sylfaenol o'r sylfaen dystiolaeth. Dylai'r adroddiad amlinellu'r dewisiadau a'r broses a ddefnyddiwyd i'w hasesu'n wrthrychol. Dylai'r adroddiad esbonio sut y mae'r ACLI wedi ystyried dewisiadau amgen rhesymol a chredadwy wrth baratoi'r cynllun. Ni ddisgwylir i ACLlau ymdrin â phob dewis amgen posibl, ond disgwylir iddynt ystyried y rhai hynny a gynigir iddynt yn ystod y broses paratoi ac ymgysylltu. Lle y cafwyd cydbwysedd wrth wneud penderfyniadau rhwng dewisiadau amgen sy'n cystadlu yn erbyn ei gilydd, dylai fod yn eglur sut y gwnaed y penderfyniadau hynny

Gallai sylfaen dystiolaeth nodweddiadol ar gyfer CDLI gynnwys y canlynol (enghreifftiau awgrymedig yn unig):

- Tystiolaeth weithdrefnol:
  - Adroddiad Arfarniad o Gynaliadwyedd (gan ymgorffori SEA, asesiadau ymgeiswyr/safleoedd amgen, ac asesiadau o'r Iaith Gymraeg).
  - Asesiad o Reoliadau Cynefinoedd: dylai'r adroddiad amlinellu canlyniadau proses arfarnu'r CDLI fel sy'n ofynnol gan y Rheoliadau Cynefinoedd ac fel yr esbonnir yn Nodyn Cyngor Technegol 5, Cadwraeth Natur a Chynllunio (yn enwedig Atodiad 6).
  - Yr Adroddiad Ymgynghori
  - Yr Adroddiad Adolygu (ar gyfer diwygio neu ddisodli'r cynllun).
- Tystiolaeth y strategaeth ofodol:
  - Hierarchaeth aneddiadau ac asesiad o ffiniau
  - Astudiaeth o'r Llain las / lletem las.
- Tystiolaeth o anghenion defnydd tir:
  - Asesiad o Anghenion Tai
  - Asesiad o'r Farchnad Tai Leol (gan gynnwys safleoedd Sipsiwn a Theithwyr)
  - Cyd-astudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai/taflwybr tai
  - Astudiaeth ar gapasiti tai (neu drefol)
  - Asesiad o Dir Cyflogaeth
  - Asesiad o anghenion manwerthu/capasiti
  - Asesiad/Cynllun Isadeiledd



- Asesiad(au) o Drafnidiaeth
- Asesiad o Fannau Agored ac Adloniant.
- Tystiolaeth o gapasiti amgylcheddol:
  - Asesiadau Strategol o Ganlyniadau Llifogydd
  - Ansawdd tir Amaethyddol
  - Asesiad o fioamrywiaeth / cadwraeth natur
  - Asesiad o Gymeriad y Dirwedd
  - Arolygon treftadaeth/archaeolegol
  - Asesiad o ynni adnewyddadwy
  - Astudiaethau o fwynau / daearegol
  - Astudiaethau o wastraff.
- Tystiolaeth o allu i'w gyflawni:
  - Astudiaeth o hyfywedd (tai fforddiadwy ayyb)
  - Datganiadau hyrwyddwyr safleoedd/darparwyr isadeiledd, ayyb
  - Asesiadau risg / dadansoddiadau profi sensitifrwydd.

### ***Prawf 3 – A fydd y cynllun yn cyflawni (h.y. a yw'n debygol o fod yn effeithiol?)***

Bydd y dystiolaeth yn debyg iawn i honno sy'n ofynnol i asesu prawf 2. Fodd bynnag, o ran dyraniadau safle, neu safleoedd amgen, gallai'r dystiolaeth ychwanegol hyn gynnwys adroddiadau sy'n benodol i safle neu wybodaeth a ddarperir gan gyrff darparu'r sector cyhoeddus a'r sector preifat, darparwyr isadeiledd neu hyrwyddwyr safle perthnasol ynglŷn â materion/pynciau ymarferol o ran y gallu i gyflawni. Dylai tystiolaeth ar hyfywedd ddangos bod cynigion (yn enwedig dyraniadau) yn debygol o gael eu cyflawni fel y'i disgwyliwyd.

Gall tystiolaeth sy'n asesu risgiau i gyflawni fod yn ddefnyddiol o ran cyfiawnhau darpariaethau cyfwng priodol (e.e. y 'lwfans hyblygrwydd a adeiladwyd i mewn i'r targed tai). Yn ogystal, gall cynnal profion sensitifrwydd o bolisiau neu gynigion y CDLI nodi risgiau eraill o ran peidio â chyflawni. Er enghraifft, os yw'r strategaeth yn dibynnu ar adeiladu ffordd osgoi, dylai'r ACLI gynnal asesiad o'r risg sy'n gysylltiedig â pheidio â darparu'r darn hwnnw o seilwaith a chanlyniadau'r methiant hwn i'r cynllun yn ei gyfanrwydd.

Mae'n bosibl y bydd angen i bapurau cefndirol fanylu ar y dulliau darparu a'r raddfa amser ar gyfer gweithredu sy'n ymwneud â'r targedau a'r cerrig milltir a gynhwysir yn y fframwaith monitro. Dylai fod yn eglur sut y caiff dangosyddion a thargedau eu mesur. Dylid nodi sbardunau ar gyfer diwygio'r cynllun yn eglur.

Yn olaf, er mwyn i gynllun fod yn effeithiol, mae'n rhaid i bolisiau rheoli datblygiad ddarparu fframwaith cadarn clir a chyson ar gyfer ystyried ceisiadau cynllunio.